Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Cynllun Datblygu Lleol

Adroddiad Monitro Blynyddol

1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016

Hydref 2016

Cyflwyniad

Mae'n rhaid i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol baratoi a chyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r adroddiad yn sylfaenol i'r broses o asesu i ba raddau y mae egwyddorion y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu rhoi ar waith ac mae'n rhoi cyfle i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol asesu'r polisïau'n ôl y wybodaeth fwyaf cyfredol sydd ar gael. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol hefyd yn cynnwys canlyniadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad Cynaliadwyedd yn ogystal â monitro Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (Atodiad 2 a 3).

Gall yr ymarfer monitro gynorthwyo'r Awdurdod Parc Cenedlaethol i nodi:-

- y polisïau nad ydynt yn llwyddo i gyflawni'r amcanion a bennwyd yn y Cynllun;
- y bylchau yn y sail dystiolaeth, efallai oherwydd newid yn yr economi, y mae angen ymdrin â nhw a'u hadlewyrchu yn y Cynllun Datblygu Lleol;
- y meysydd llwyddiannus y gellid eu hefelychu, o bosibl, drwy'r Cynllun Datblygu Lleol cyfan;
- y camau y mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn bwriadu eu cymryd i unioni unrhyw wendidau a sicrhau bod y polisi, neu unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol, yn cael eu rhoi ar waith

Mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi datblygu set o dargedau a dangosyddion sy'n gweithredu fel meincnodau i'w defnyddio i fesur perfformiad. Gall y targedau ymwneud â datblygiadau penodol a gellir eu pennu bob blwyddyn neu ar adegau penodol yn ystod oes y Cynllun. Y targed ar gyfer y Cynllun yn ei gyfanrwydd yw sicrhau y caiff Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol ei rhoi ar waith.

Mae'r dangosyddion a'r targedau a nodir yn y Fframwaith Monitro hefyd yn gweithredu fel sbardun i dynnu sylw at unrhyw ran o'r Cynllun nad yw'n cyflawni'r amcanion a bennwyd. Os digwydd hyn, bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn ystyried pa gamau y bydd angen eu cymryd. Mae nifer o gamau y gallai'r Awdurdod Parc Cenedlaethol eu cymryd yn yr achosion hyn, gan ddibynnu ar i ba raddau y mae'n ymddangos nad yw'r targed wedi'i gyrraedd a pha mor dyngedfennol yw'r datblygiad i'r gwaith o weithredu Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol. Defnyddir dangosyddion cyd-destunol hefyd yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol i benderfynu ai'r Cynllun sy'n gyfrifol am fethu â chyrraedd y targedau ynteu a oes ffactorau allanol (fel yr economi neu newidiadau yn y ffynonellau ariannu etc) yn cyfrannu at hynny, ffactorau na all y system gynllunio'u rheoli.

Mae'r dewisiadau a ganlyn ar gael i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yng nghyswllt pob un o'r dangosyddion a'u sbardunau. Bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn asesu pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa yn achos pob dangosydd ac yn awgrymu'r camau y dylid eu cymryd:

- Parhau i fonitro
- Hyfforddi SwyddogioAmhelodau
- Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol/Papurau Briffio Datblygu
- Ymchwil Polisi

- Adolygu Polisi
- Adolygu'r Cynllun/Strategaeth

Fel rhan o'r broses o baratoi'r Adroddiad Monitro Blynyddol, bydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol hefyd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu'r safleoedd a ddyrannwyd. Bydd hyn yn dangos y gwaith a aeth rhagddo ar y safle mewn unrhyw flwyddyn benodol gan gynnwys paratoi astudiaethau, neu hynt y datblygiad. Os nad yw'r gwaith ar y safle'n mynd rhagddo'n ôl y disgwyl, caiff hyn ei ystyried yn sbardun a bydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cymryd y camau priodol (gweler uchod) os bydd angen.

Crynodeb Gweithredol

Yn unol â chyfarwyddeb yr Asesiad Amgylcheddol Strategol, mae'n rhaid monitro'r effeithiau amgylcheddol arwyddocaol sydd ynghlwm wrth roi cynllun ar waith er mwyn medru cymryd camau adfer os oes angen. Nid yw'r Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Cynllun Datblygu Lleol wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol ar yr amcanion; fodd bynnag, nodwyd effeithiau cadarnhaol sylweddol y mae angen eu monitro.

Hefyd yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu'r safleoedd a ddyrannwyd. Mae hyn yn tynnu sylw at y gwaith a aeth rhagddo ar y safle mewn unrhyw flwyddyn benodol gan gynnwys paratoi astudiaethau neu hynt unrhyw ddatblygiad. Nodwyd mai dim ond yn achos 8 o'r safleoedd tai a ddyrannwyd ar gyfer y 5 mlynedd gyntaf yr oedd ceisiadau cynllunio wedi'u cyflwyno, a dim ond dau ddatblygwr oedd wedi dechrau gwaith datblygu. Mae swyddogion wedi ysgrifennu at dirfeddianwyr i ddweud wrthynt fod posibilrwydd y caiff eu safleoedd eu tynnu oddi ar y rhestr o safleoedd a ddyrannwyd yn ystod y cyfnod Adolygu os na fyddant yn bwrw ymlaen i ddatblygu'r safleoedd hyn. Yn amlwg, bu ychydig llai o weithgarwch mewn perthynas â safleoedd mwy diweddarm gyda phedwar ohonynt wedi symud ymlaen i'r cam gwneud cais cynllunio. Er bod yr Awdurdod yn gwerthfawrogi bod diffyg seilwaith dŵr yn cyfyngu ar nifer o'r safleoedd hyn, mae Swyddogion yn bwriadu cysylltu â'r tirfeddianwyr i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ynghyd ag amserlen debygol ar gyfer bwrw ymlaen â'r gwaith datblygu. O edrych ar y safleoedd defnydd cymysg a ddyrannwyd, mabwysiadwyd tri Briff Datblygu ac mae'r tirfeddiannwr wrthi'n paratoi'r llall.

Cwblhawyd gofynion nifer o'r dangosyddion strategol a'r dangosyddion polisi yn ystod cyfnod monitro cyntaf y Cynllun Datblygu Lleol, sef y rhai'n ymwneud â meddiannu'r safle a ddyrannwyd i Sipsiwn a Theithwyr a datblygu nifer o Ganllawiau Cynllunio Atodol. Argymhellwyd hefyd y dylid rhoi'r gorau i fonitro'r ceisiadau hynny ar gyfer datblygiadau mwy nad ydynt yn defnyddio adnoddau carbon isel neu di-garbon i gynhyrchu 20% o'u hynni. Cwblhawyd Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â Bioamrywiaeth a chwblhawyd Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth Aberhonddu, Talgarth a'r Gelli Gandryll yn ystod yr ail gyfnod monitro.

Er hyn, byddwn yn parhau i fonitro mwyafrif helaeth y dangosyddion strategol a'r dangosyddion polisi, sy'n ofynnol yn ôl Fframwaith Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol, fel y nodir yn y tablau sydd wedi'u lliwio'n wyrdd a melyn isod. O'r rhain, mae angen rhywfaint o waith ychwanegol ar ambell un, a hynny ar ffurf ymchwil polisi yn ogystal â hyfforddiant i Swyddogion / Aelodau a Chanllawiau Cynllunio Atodol o bosibl.

Monitro Cynaliadwyedd

Yn unol â chyfarwyddeb yr Asesiad Amgylcheddol Strategol mae'n rhaid monitro'r effeithiau amgylcheddol arwyddocaol sydd ynghlwm wrth roi cynllun ar waith er mwyn medru cymryd camau adfer os oes angen.

Nid yw'r Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Cynllun Datblygu Lleol wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol ar yr amcanion; fodd bynnag, nodwyd yr effeithiau cadarnhaol arwyddocaol y mae angen eu monitro, sef:

- Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd (SA1) a Lleihau Nwyon Tŷ Gwydr (SA2) mewn perthynas â pholisïau SP4: 'Newid yn yr Hinsawdd' a SP11: 'Dylunio Cynaliadwy';
- Adnoddau Dŵr (SA5) drwy'r polisi ar Ansawdd Dŵr (Polisi 10);
- Bioamrywiaeth (SA8) mewn perthynas ag SP1 Polisi'r Parc Cenedlaethol ac SP3 Diogelu'r Amgylchedd, gan gynnwys y polisi ategol ar Fioamrywiaeth a Datblygu (Polisi 6);
- Treftadaeth Ddiwylliannol (SA9) mewn perthynas ag SP1 Polisi'r Parc Cenedlaethol ac SP3 Diogelu'r Amgylchedd, gan gynnwys ei bolisi ategol ar Ardaloedd Gwerthusiad Archaeolegol (Polisi 22).
- Tirwedd SA11 mewn perthynas ag SP1 (Polisi'r Parc Cenedlaethol) ac SP3 Diogelu'r Amgylchedd, gan gynnwys ei bolisïau ategol ar Goed a Datblygiad (Polisi 8) a Llygredd Golau (Polisi 6)
- Adnoddau Naturiol a Seilwaith (SA12) drwy'r polisïau ar Ddylunio Cynaliadwy (SP11), Seilwaith Cynaliadwy (SP16), Gwastraff (SP6) ac Ailgylchu Mwynau (Polisi 67)
- Poblogaeth (SA14) mewn partneriaeth â Dosbarthiad Gofodol Datblygiadau (SP10), Polisi Parc Cenedlaethol (SP1) a pholisïau'n ymwneud â thai (SP5), tai fforddiadwy (SP6), lles economaidd (SP12) a Chymunedau Cynaliadwy (SP15);
- Economi (SA17) mewn perthynas â Pholisi'r Parc Cenedlaethol (SP1) a pholisïau'n ymwneud â Lles Economaidd (SP12) a Manwerthu (SP13).

Mae'r Fframwaith Monitro isod a fabwysiadwyd gan y Cynllun Datblygu Lleol yn ymdrin â gofynion monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd (SA) a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA). Ceir dangosyddion ychwanegol yn yr SA i sicrhau y gellir monitro'r holl effeithiau arwyddocaol. Os yw'r rhain yn berthnasol, ac os oes data ar gael ar gyfer y Parc Cenedlaethol, mae'r rhain i'w gweld yn Atodiad 2.

Monitro Strategaeth

Allwedd:

	Cwblhawyd
	Parhau i fonitro
	Ymchwil Polisi / Canllawiau Cynllunio Atodol / Hyfforddiant i Swyddogion ac Aelodau
	Rhoi'r gorau i fonitro

Darparu Tai

Ffigur 1

Cynnal cyflenwad o dir am gyfnod o 5 mlynedd	
Parhau i Fonitro	Cynhaliodd yr Awdurdod Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai yn 2016 (Atodiad 1) ac mae'n cadarnhau bod **cyflenwad o dir ar gael am 5.0 o flynyddoedd**.
	Cyfnod Monitro Blaenorol (17 Rhagfyr 2013 i 31 Mawrth 2015): Cyflenwad tir 5.8 o flynyddoedd yn 2015 Cyflenwad tir 5.3 o flynyddoedd yn 2014
	Sylwadau: Mae'r Awdurdod wedi cadw cyflenwad o 5 mlynedd o dir am y tair blynedd ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol.
	Argymhelliad: Mae'r targed monitro blynyddol wedi'i gyrraedd. Felly, nid oes angen cymryd unrhyw gamau eraill ar wahân i barhau i fonitro'r cyflenwad o dir sydd ar gael i'r Awdurdod drwy'r broses Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai

Ffigur 2

Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiateir a'r anheddau newydd a gwblheir bob blwyddyn	
Ymchwil Polisi	Rhoddwyd caniatâd cynllunio i 117 o anheddau newydd Anheddau a gwblhawyd yn 2015-2016 = 58
	Cyfnod Monitro Blaenorol: Rhoddwyd caniatâd cynllunio i 106 o anheddau newydd, ynghyd â chwblhau 64 yn 2013/14 a 45 yn 2014/15.
	Sylwadau: Mae nifer yr anheddau y cafwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer a'r nifer a gwblhawyd ar gyfer y cyfnod yn llai na nifer yr anheddau sydd eu hangen bob blwyddyn (174 (+/- 20%). Er bod hyn wedi'i nodi, ffigur cyfartalog dros gyfnod hirach o 5 mlynedd yw'r ffigur a bennwyd ar gyfer pob blwyddyn. Felly, dylid cofio bydd nifer yr anheddau a godir yn amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall. Yn wir, mae ail ran y sbardun asesu yn nodi bod angen codi rhwng 696 a 1044 o anheddau erbyn 2017. Dylid nodi bod nifer yr anheddau a gafodd ganiatâd cynllunio wedi cynyddu o 11 o ffigurau 2014/15. Hefyd, mae nifer yr anheddau a gwblhawyd wedi cynyddu o 13.
	Argymhelliad: Mae'r dangosyddion blynyddol yn awgrymu nad yw nifer y tai a gwblhawyd yn cyfateb i'r lefel ofynnol. Mae angen ymchwilio ymhellach: • Cynnal ymchwil cymharu gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill i ddarpariaeth tai.

Ffigur 3

Nifer yr unedau a ganiateir ac a gwblheir ym mhob haen anheddiad	
Parhau i Fonitro	**Unedau a ganiatawyd** Prif Aneddiadau Allweddol Aberhonddu: 14% Aneddiadau Allweddol: 41%

	Aneddiadau: 35% Aneddiadau Twf Cyfyngedig: 5% Cefn gwlad: 5% Safleoedd Tir Llwyd a Ddyrannwyd:0 **Cwblhawyd 2015-2016** Aberhonddu-9% Aneddiadau allweddol: 9% Aneddiadau: 54%% Aneddiadau Twf Cyfyngedig: 20% Cefn gwlad: 9%% Safleoedd Tir Llwyd a Ddyrannwyd: 0
	Cyfnod Monitro Blaenorol: **Unedau a ganiatawyd** Prif Aneddiadau Allweddol Aberhonddu: 1% Aneddiadau Allweddol: 8% Aneddiadau: 88% Aneddiadau Twf Cyfyngedig: 3% Cefn gwlad: 0 Safleoedd Tir Llwyd a Ddyrannwyd:0 **Cwblhawyd 2013-2014** Aberhonddu-0 Aneddiadau allweddol: 0 Aneddiadau: 45% Aneddiadau Twf Cyfyngedig: 0 Cefn gwlad: 55% Safleoedd Tir Llwyd a Ddyrannwyd: 0 **Cwblhawyd 2014-2015** Aberhonddu -0 Aneddiadau allweddol 14% Aneddiadau: 16% Aneddiadau Twf Cyfyngedig: 24% Cefn gwlad: 46% Safleoedd Tir Llwyd a Ddyrannwyd: 0
	Sylwadau: O gofio maint a natur nifer o'r safleoedd yn y Prif Aneddiadau a'r Aneddiadau Allweddol, awgrymir nad yw blwyddyn neu hyd yn oed ddwy flynedd o fonitro yn ddigon i wneud asesiad rhesymol yn erbyn gofynion y dangosydd hwn. Gan hynny, cânt eu monitro dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r 5% o unedau a ganiatawyd yng nghefn gwlad yn ymwneud â chais unigol a ganiatawyd yn 2011, ar yr adeg hon roedd y datblygiad dan sylw o fewn terfynau anheddau diffiniedig yn unol â Map Cynigion y CDU. Yn sgil amgylchiadau personol yr ymgeisydd, ni roddwyd caniatâd i'r cytundeb a106 mewn perthynas â'r elfen tai fforddiadwy tan fis Mawrth eleni.
	Argymhelliad:

	Caiff y dangosydd hwn ei fonitro dros gyfnod o dair blynedd a chaiff asesiad ei sbarduno os bwriedir codi dros 50% o'r anheddau y rhoddir caniatâd cynllunio iddynt y tu allan i'r Aneddiadau Lefel 1 a 2. Gan hynny, bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro hyn dros y flwyddyn nesaf.

Ffigur 4

Nifer yr anheddau a ganiateir ar safleoedd defnydd cymysg	
Ni roddwyd caniatâd i godi unrhyw anheddau ar safleoedd defnydd cymysg	
Parhau i Fonitro	**Cyfnod Monitro Blaenorol:** Ni roddwyd caniatâd i godi unrhyw anheddau ar safleoedd defnydd cymysg.
	Sylwadau: Penderfynwyd cymeradwyo datblygiad i godi 70 o anheddau a chyfleusterau cyflogaeth ar hen Wersyll y Fyddin Cwrt y Gollen (CS66). Mae trafodaethau adran 106 yn mynd rhagddynt. Cyflwynwyd Briffs Datblygu ar y safleoedd defnydd cymysg a ganlyn hefyd: • SALT 037 – Estyniad arfaethedig i T9, Talgarth (15 o anheddau) – **Mabwysiadwyd** • CS66 – Hen Wersyll y Fyddin Cwrt y Gollen (70) – **Mabwysiadwyd** • CS132 – Tir gyferbyn ag Ysgol Uwchradd Aberhonddu (137) – **Mabwysiadwyd**
	Argymhelliad: Nid oes sbardun asesu ar gyfer y dangosydd hwn. Gan hynny, caiff ei fonitro dros weddill oes y cynllun. Rhagwelir , fodd bynnag, y caiff 100 o anheddau eu codi yn ystod 5 mlynedd gyntaf y cynllun ar safleoedd defnydd cymysg a ddyrannwyd.

Ffigur 5

Yr holl geisiadau cynllunio a ganiateir i sicrhau dwysedd o 30 annedd yr hectar.	
Ymchwil Polisi	Rhoddwyd caniatâd i 10 o ddatblygiadau preswyl o dan 20 annedd yr hectar. Rhoddwyd caniatâd i 4 o ddatblygiadau preswyl a oedd â 20-30 annedd yr hectar. Rhoddwyd caniatâd i 3 o ddatblygiadau preswyl a oedd â 30 annedd yr hectar.
	Cyfnod Monitro Blaenorol: Rhoddwyd caniatâd i 16 o ddatblygiadau preswyl o dan 20 annedd yr hectar. Rhoddwyd caniatâd i 5 o ddatblygiadau preswyl a oedd â 20-30 annedd yr hectar. Rhoddwyd caniatâd i 5 o ddatblygiadau preswyl a oedd â 30 annedd yr hectar.
	Sylwadau: Mae polisi 61 yn y Cynllun Datblygu Lleol yn ymwneud â dwysedd anheddau ac mae'n nodi: "*Bydd yn ofynnol i bob datblygiad preswyl gael ei ddatblygu ar ddwysedd lleiaf o 30 annedd yr hectar, lle y mae hyn yn gydnaws â chymeriad presennol yr ardal.*

	Caniateir lefelau is na'r targed lleiaf dim ond lle y profir nad oes modd cyflawni'r dwysedd hwn yn sgil cynnwys mesurau i wella cynaliadwyedd y cynllun na ellir eu lleoli ar dir y tu allan i'r dyraniad." Mae'n amlwg bod rhywfaint o hyblygrwydd yn y polisi hwn i ganiatáu datblygiadau sydd â llai na 30 o anheddau ar bob hectar e.e. natur yr ardal gyfagos. At hyn, bu achosion pan gytunwyd ar ddatblygiadau a chanddynt ddwysedd is oherwydd cyflwr anarferol y safle – cyfyngiadau topograffeg/ mynediad er enghraifft Ar gyfer y cyfnod monitro blaenorol, argymhellwyd yn yr Adroddiad: *"Mae'r dangosydd yn awgrymu nad yw'r polisi hwn yn cael ei roi ar waith yn llawn. Rhaid nodi, fodd bynnag, fod rhywfaint o hyblygrwydd yn y polisi hwn i ganiatáu datblygiadau sydd â llai na 30 o anheddau ar bob hectar. Gan hynny, mae angen rhagor o waith ymchwil mewn perthynas â'r canlynol:* • *Ymchwilio i nifer y safleoedd a ddyrannwyd y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt, a hynny ar gyfer datblygiadau sydd â llai na 30 o anheddau ar bob hectar.* • *Penderfynu pam y caniatawyd datblygiadau â dwysedd is* *Gan ddibynnu ar ganlyniadau'r ymchwil polisi hwn, mae'n bosibl y bydd angen rhoi hyfforddiant ychwanegol i Swyddogion Rheoli Datblygu ac Aelodau'r Awdurdod yn ymwneud â gofynion Polisi 61. Ystyriaeth arall fydd datblygu rhan ychwanegol i'w chynnwys yn y Canllawiau Cynllunio Atodol, i ymdrin â dwysedd ac amrywiaeth yr anheddau ar safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer tai a safleoedd defnydd cymysg.* Yn ogystal â'r argymhelliad hwn, cynhaliwyd archwiliad o'r cynigion cais perthnasol a phennwyd eu bod i gyd o fewn goddefiant Polisi 61. Hynny, yw, mae'n rhesymol awgrymu bod caniatâd cynllunio ond wedi'i roi ar gyfer cynigion datblygu o dan ddwysedd 30 annedd yr hectar mewn achosion lle na ellid ei gyflawni neu na fyddai dwysedd o 30 annedd yr hectar yn gydnaws ag amgylchoedd y safle dan sylw. Er hynny, darparwyd hyfforddiant i Swyddogion Rheoli Datblygu gan y Tîm Strategaeth a Pholisi i sicrhau bod y polisi'n cael ei ddehongli'n briodol.
	Argymhelliad: Mae'r dangosydd yn awgrymu nad yw'r polisi hwn yn cael ei weithredu'n llawn fel sy'n ofynnol. Fodd bynnag, mae'n rhaid nodi bod hyblygrwydd yn y polisi sy'n galluogi datblygiadau ar ddwysedd o dan 30 annedd yr hectar. Gan hynny, mae angen cynnal ymchwil bellach i bennu'r rhesymau penodol dros ganiatáu lefel is o ran dwysedd anheddau.

Ffigur 6

Y targed ar gyfer canran y tai fforddiadwy a godir	
Ymchwil Polisi	Mae Mynegai Prisiau Tai y Gofrestrfa Tir ar gyfer Merthyr Tudful yn dangos bod newid o -1.75% wedi bod mewn prisiau tai yng nghyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn. Fodd bynnag, mae cyfartaledd prisiau tai yn parhau yn uwch na'r rhai yn y rhanbarth ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ym mis Rhagfyr 2013.

	Cyfnod Monitro Blaenorol: Mae data'r Gofrestrfa Tir a'r Pecyn Cymorth Arfarnu Datblygiadau yn awgrymu bod prisiau tai wedi codi rhwng 9 ac 17% yn is-farchnad Blaenau'r Cymoedd rhwng 2012 a 15.
	Sylwadau: Caiff asesiad ei sbarduno os bydd newid o 2.5% mewn prisiau tai yn ardal is-farchnad Blaenau'r Cymoedd a newid o 5% yn ardaloedd eraill y Parc Cenedlaethol.
	Argymhelliad: O gofio bod data'r Gofrestrfa Tir, ynghyd â data'r Pecyn Cymorth Arfarnu Datblygiadau, yn awgrymu bod prisiau tai yn ardal Blaenau'r Cymoedd wedi codi'n sylweddol, er bod gostyngiad bach wedi bod yn 2015/16, byddai'n fuddiol i'r Awdurdod ystyried cynnal profion hyfywedd ychwanegol er mwyn addasu'r targedau ar gyfer canran y tai fforddiadwy a godir (os yw'n briodol) yn ystod y broses o Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol.

Ffigur 7

Nifer yr anheddau fforddiadwy a ganiateir	
Parhau i Fonitro	Caniatawyd 45 o anheddau fforddiadwy. Mae hyn yn cyfateb i 38% o'r holl anheddau a ganiatawyd
	Cyfnod Monitro Blaenorol: Caniatawyd 24 o anheddau fforddiadwy. Mae hyn yn cyfateb i 17% o'r holl anheddau a ganiatawyd. Yn ystod y cyfnod monitro, sicrhawyd cyfanswm o £135,115.64 ar ffurf symiau gohiriedig i'w defnyddio dim ond i ddarparu tai fforddiadwy yn ardal y Parc Cenedlaethol.
	Sylwadau: Y targed ar gyfer y dangosydd hwn yw rhoi caniatâd cynllunio i godi 47 o Anheddau Fforddiadwy bob blwyddyn (+/- 30%). Caiff asesiad ei sbarduno os codir llai na 38 o Dai Fforddiadwy bob blwyddyn am dair blynedd yn olynol. Felly, mae'r targed blynyddol wedi'i gyrraedd a gellir ailosod y sbardun asesiad 3 blynedd. Ymrwymwyd i swm o £43,899.73 yn ystod y cyfnod o'r caniatâd cynllunio.
	Argymhelliad: Caiff y dangosydd hwn ei fonitro am flwyddyn arall.

Ffigur 8

Nifer o anheddau fforddiadwy a gwblhawyd	
Parhau i Fonitro	**Cwblhawyd yn 2015-2016:** 10
	Cyfnod Monitro Blaenorol: **Cwblhawyd yn 2013-2014** 31 **Cwblhawyd yn 2014-2015** 6
	Sylwadau: Yr ail sbardun asesu yw bod angen rhoi caniatâd i godi 15 o anheddau Tai Fforddiadwy bob blwyddyn am dair blynedd yn olynol. Gan hynny, o gofio mai dim ond 6 o anheddau Tai Fforddiadwy a gwblhawyd yn ystod 2014-15 a 10 yn ystod 2015-16, caiff y dangosydd hwn ei fonitro am flwyddyn arall.

	Er mwyn cyflawni'r gofyniad tair blynedd o 45 o anheddau fforddiadwy o leiaf, bydd gofyn i o leiaf 29 gael eu cwblhau erbyn 2016-17. O ystyried bod disgwyl cwblhau 22 ar Dir Ger Beacons Court, Crucywel, yn unig mae'n rhesymol disgwyl cyrraedd y targed. Cyfeirir uchod at lefel y cyfraniadau Tai Fforddiadwy a wneir drwy gyfrwng swm gohiriedig. Mae'n amlwg y bydd cyfnod o oedi rhwng cael y symiau hyn a'u defnyddio i ddatblygu unedau tai fforddiadwy ar lawr gwlad. Rhaid cydnabod hynny mewn rhyw ffordd.
	Argymhelliad: Caiff y dangosydd hwn ei fonitro dros gyfnod o 3 blynedd a chaiff asesiad ei sbarduno os cwblheir llai nag 15 o anheddau Tai Fforddiadwy bob blwyddyn am dair blynedd yn olynol. Gan hynny, caiff y dangosydd hwn ei fonitro am ddwy flynedd arall.

Ffigur 9

Nifer yr anheddau i'w gwerthu ar y farchnad agored ar safleoedd sy'n cynnwys 3 annedd neu fwy	
Parhau i Fonitro	Rhoddwyd caniatâd i godi 25 o unedau ar 4 safle ar wahân lle dangoswyd nad oedd darparu tai fforddiadwy yn ymarferol. Mae hyn yn cyfateb i golli 5 o anheddau fforddiadwy.
	Cyfnod Monitro Blaenorol: Rhoddwyd caniatâd i godi 5 o ddatblygiadau preswyl (a oedd yn cyfateb i golli 13 o Anheddau Fforddiadwy) a oedd â 3 annedd neu fwy nad oedd oeddynt yn bodloni lefelau polisi y cyfraniad.
	Sylwadau: Caiff asesiad o'r polisi ond ei sbarduno os caniateir dros 10 o anheddau i'w gwerthu ar y farchnad agored bob blwyddyn am dair blynedd yn olynol. Gan hynny, ni fydd angen asesiad am o leiaf 3 blynedd arall. Ystyrir hefyd maint y symiau gohiriedig a gaiff eu talu yn lle cyfraniadau ar y safle wrth bwyso a mesur yr effaith ganfyddedig. Yn y pen draw, caiff yr arian hwn ei ddefnyddio dim ond i ddarparu tai fforddiadwy.

REFVAL	Cyf'wm Unedau	Targed Polisi TFf	Sylwadau
15/12579/REM	5	1	Dangoswyd nad oedd gan unrhyw Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) ddiddordeb yn y safle, ac felly sicrhawyd swm gohiriedig cyfwerth â darpariaeth un annedd yn lle darpariaeth ar-safle.
07/01405/OUT	5	1	Nid oedd gan unrhyw LCC ddiddordeb yn yr eiddo, wedi galluogi darpariaeth annedd marchnad rhad (wedi'i gapio i lefelau fforddiadwy) yn lle darpariaeth ar-safle drwy LCC.
13/09861/FUL	11	2	Nid oedd unrhyw LCC yn gallu rheoli fflatiau mewn adeilad preifat. Profwyd swm gohiriedig yn anhyfyw oherwydd

				costau addasu adeilad rhestredig. Gan hynny, cytunwyd i gapio 2 o'r unedau i werthoedd rhentu cyfwerth â lwfans tai lleol.	
	13/10034/FUL	4	1	Nid oedd unrhyw LCC yn gallu rheoli fflatiau mewn adeilad preifat. Profwyd swm gohiriedig yn anhyfyw oherwydd costau addasu'r adeilad rhestredig. Gan hynny, cytunwyd i gapio 2 o'r unedau i werthoedd rhentu cyfwerth â lwfans tai lleol.	
	Argymhelliad Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro.				

Ffigur 10

Nifer yr anheddau fforddiadwy a ganiateir ar hap-safleoedd	
Parhau i Fonitro	29 Annedd Fforddiadwy ar hap-safle.
	Cyfnod Monitro Blaenorol: 4 Annedd Fforddiadwy ar hap-safle.
	Sylwadau: Rhoddwyd caniatâd i 16 o Anheddau Fforddiadwy ar Dir ger Beacons Court, Crucywel (h.y. 16 ar ben yr 8 uned a ddisgwyliwyd yn sgil cyfraniadau lefel polisi a oedd yn gysylltiedig â'r dyraniad) a rhoddwyd caniatâd i 13 ar Dir yn Lôn yr Ysgol, Talgarth. Rhagorwyd ar y targed blynyddol o roi caniatâd cynllunio i 3 Anhedd Fforddiadwy ar hap y flwyddyn am ddwy flynedd yn olynol. Dylid nodi y caiff asesiad ei sbarduno os na roddir caniatâd cynllunio i godi o leiaf 2 annedd fforddiadwy ar hap bob blwyddyn am dair blynedd yn olynol.
	Argymhelliad: Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro.

Ffigur 11

Nifer yr anheddau fforddiadwy ar safleoedd eithriedig	
Parhau i Fonitro	Ni roddwyd caniatâd i godi unrhyw annedd ar safleoedd Tai Fforddiadwy Eithriedig.
	Cyfnod Monitro Blaenorol: Ni roddwyd caniatâd i godi unrhyw annedd ar safleoedd Tai Fforddiadwy Eithriedig.
	Sylwadau: Dylid nodi bod y llecyn cymharol gul o dir sy'n gysylltiedig â chais y Tir yn Beacons Court, Crucywel yn ymestyn y tu hwnt i ffin dyraniad y Cynllun Datblygu Lleol ac i mewn i Gefn Gwlad. Yn dechnegol, gellid ystyried yr elfen hon o'r safle fel 'datblygiad eithriadol'. Fodd bynnag, dylid nodi hefyd fod y llecyn o dir dan sylw yn cynnwys gerddi, ffordd fawr a seilwaith draenio yn bennaf ac nad oes llawer o ddatblygiad adeiledig. Gan hynny, mae'r anheddau Fforddiadwy a ddarperir ar y safle hwn wedi'u cofnodi yn Ffigurau 7 a 10 uchod. Er na lwyddwyd i gyrraedd y targed blynyddol o roi caniatâd cynllunio i 4 o anheddau tai fforddiadwy, dylid nodi nad oherwydd i'r Awdurdod wrthod

	caniatâd cynllunio y digwyddodd hyn. Ni chafwyd unrhyw geisiadau i ddatblygu 'safleoedd eithriedig' yn ystod y cyfnod a byddai'n rhesymol tybio bod hyn y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod. Gan hynny, o gofio ei fod yn ymwneud â 'datblygiad eithriadol' bydd angen ystyried a fydd angen monitro'r dangosydd hwn yn y dyfodol.
	Argymhelliad: Parhau i fonitro ond ystyried a ddylid parhau i fonitro'r dangosydd hwn yn y dyfodol.

Ffigur 12

Meddiannu'r safle a ddyrannwyd i Sipsiwn a Theithwyr	
Cwblhawyd yn ystod y cyfnod monitro diwethaf	Mae'r safle a ddyrannwyd i Sipsiwn a Theithwyr wedi'i ddatblygu ac mae'r teulu yn byw yno.
	Sylwadau: Ar ôl rhoi caniatâd cynllunio ar 27 Mawrth 2012 i greu safle parhaol i Sipsiwn a Theithwyr, datblygwyd 14 o unedau - mae 10 yn cael eu defnyddio ac mae'r 4 arall yn wag. Mae'r 4 uned sy'n wag wedi'u paratoi drwy osod ffiniau a sylfeini. Caiff y rhain eu cwblhau i fodloni gofynion y teulu pan fydd angen gwneud hynny. Nid yw tua chwarter y safle a ddyrannwyd wedi'i ddatblygu eto (i'r gogledd-orllewin). Rhagwelir y caiff yr unedau eu defnyddio yn y dyfodol wrth i'r teulu dyfu
	Argymhelliad: Yn ôl y fframwaith monitro, roedd angen i'r safle hwn gael ei feddiannu erbyn 2017. Mae'r safle eisoes wedi'i ddatblygu a'i feddiannu felly nid oes angen monitro'r dangosydd ymhellach.

Ffigur 13

Canllawiau Cynllunio Atodol	
Cwblhawyd yn ystod y cyfnod monitro diwethaf	Cynhyrchwyd Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â'r canlynol: • Tai Fforddiadwy • Strategaeth Rhwymedigaethau Cynllunio • CYD LP1: Datblygiadau Priodol yng Nghefn Gwlad
	Sylwadau: Yn unol â gofynion Fframwaith Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol, mae'r Aelodau wedi cymeradwyo'r Canllawiau Cynllunio Atodol uchod. Mae'r tair dogfen ganllaw hyn yn ystyried ac yn ymdrin â'r 6 Canllaw Cynllunio Atodol y cyfeirir atynt yn adran 'Darparu Tai' Fframwaith Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol.
	Argymhelliad: Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol wedi'u cwblhau. Gan hynny, ni fydd angen monitro'r dangosydd hwn ymhellach.

Lles Economaidd

Ffigur 14

Datblygu tir ar gyfer cyflogaeth

Parhau i Fonitro	Yn ystod y cyfnod 1/4/15-31/3/16 rhoddwyd caniatâd i 0.135 hectar o dir yn nosbarth defnydd B y safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer cyflogaeth.
	Cyfnod Monitro Blaenorol: Rhoddwyd caniatâd i ddatblygu 0.491 Hectar o dir yn nosbarth defnydd B ar y safleoedd a ddyrannwyd ar gyfer cyflogaeth.
	Sylwadau: Caiff asesiad ei sbarduno mewn perthynas â'r dangosydd hwn os caiff llai na 0.5 hectar o'r tir cyflogaeth a ddyrannwyd ei ddatblygu erbyn 2017. Fel y nodir uchod, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 0.491 hectar o dir ar gyfer cyflogaeth a hynny at ddefnydd B1, B2 a B8 yn ystod y cyfnod monitro. Bydd angen monitro ymhellach i ystyried y caniatâd ychwanegol a hefyd i roi'r caniatâd cynllunio ar waith. O ran AMR y flwyddyn nesaf, mae'n werth nodi yma bod y datblygiad adeiladu swyddfa BVG Airflo ym Mharc Menter Aberhonddu (a safle cyflogaeth a ddyrennir) wedi derbyn caniatâd cynllunio ers hynny ac mae'r gwaith datblygu wedi dechrau ar y safle. Mae'r safle yn 0.78 hectar i gyd. Ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, mae caniatâd wedi'i roi i 0.626 hectar i gyd.
	Argymhelliad: Caiff y dangosydd hwn ei fonitro am gyfnod o dair blynedd i ddechrau gan mai'r targed oedd datblygu o leiaf 0.5ha o dir ar gyfer cyflogaeth erbyn 2017. Gan hynny, bydd angen parhau i'w fonitro am flwyddyn arall.

Ffigur 15

Colli Tir ar gyfer Cyflogaeth	
Parhau i Fonitro	Ni roddwyd caniatâd i ddatblygu tir a ddyrannwyd neu a bennwyd ar gyfer cyflogaeth at ddibenion nad oeddent yn ymwneud â chyflogaeth.
	Ni roddwyd caniatâd i ddatblygu tir a ddyrannwyd neu a bennwyd ar gyfer cyflogaeth at ddibenion nad oeddent yn ymwneud â chyflogaeth.
	Sylwadau: Dim.
	Argymhelliad: Caiff asesiad ei sbarduno mewn perthynas â'r dangosydd hwn os rhoddir caniatâd cynllunio, at ddibenion nad ydynt yn ymwneud â chyflogaeth, i 1 cais yn ymwneud â thir a ddyrannwyd ar gyfer cyflogaeth ar hyn o bryd. Ni chaniatawyd dim hyd yma. Gan hynny, bydd y gwaith o fonitro'r dangosydd hwn yn parhau.

Ffigur 16

Datblygu tir ar gyfer cyflogaeth ym Mhontsenni a Defynnog	
Parhau i Fonitro	Ni roddwyd caniatâd i unrhyw ddatblygiad ar gyfer cyflogaeth ym Mhontsenni
	Cyfnod Monitro Blaenorol: Ni roddwyd caniatâd i unrhyw ddatblygiad ar gyfer cyflogaeth ym Mhontsenni
	Sylwadau: Cafodd y dangosydd hwn ei gynnwys wedi i safle cyflogaeth arfaethedig gael ei dynnu oddi ar y Cynllun Datblygu Lleol gan y tirfeddiannwr yn ystod yr archwiliad. Caiff asesiad ei sbarduno os na roddir caniatâd cynllunio i

	ddatblygu 1.43 ha o dir cyflogaeth yn anheddiad Pontsenni a Defynnog, neu'r tu allan iddo, erbyn 2017. Dylid nodi bod Adolygiad yr Awdurdod o Dir Cyflogaeth wedi nodi bod angen sicrhau 1.46ha o dir ar gyfer cyflogaeth ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol cyfan erbyn diwedd oes y Cynllun.
	Argymhelliad: Caiff y dangosydd hwn ei fonitro dros gyfnod o dair blynedd. Gan na roddwyd caniatâd i ddatblygu tir cyflogaeth hyd yma, caiff y dangosydd ei fonitro am flwyddyn arall neu nes bydd y targed monitro wedi'i gyrraedd.

Ffigur 17

Datblygiad tir ar gyfer cyflogaeth yn y Gelli Gandryll	
Parhau i Fonitro	Ni roddwyd caniatâd cynllunio i unrhyw ddatblygiad ar gyfer cyflogaeth yn y Gelli Gandryll.
	Cyfnod Monitro Blaenorol: Ni roddwyd caniatâd cynllunio i unrhyw ddatblygiad ar gyfer cyflogaeth yn y Gelli Gandryll.
	Sylwadau: Cafodd y dangosydd hwn ei gynnwys ar ôl rhoi caniatâd cynllunio i ddefnyddio tir cyflogaeth at ddibenion y gymuned ar ôl mabwysiadu'r CDLl. Caiff asesiad ei sbarduno os na roddir caniatâd cynllunio i ddatblygu 0.6 ha o dir ar gyfer cyflogaeth yn anheddiad y Gelli Gandryll neu'r tu allan iddo erbyn 2017. Dylid nodi bod Adolygiad yr Awdurdod o Dir Cyflogaeth wedi nodi bod angen sicrhau 1.46ha o dir ar gyfer cyflogaeth ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol cyfan erbyn diwedd oes y Cynllun. Yn ogystal, bwriedir dyrannu 4.2 ha o dir defnydd cymysg a 2.4 ha o dir ar gyfer cyflogaeth yng Nghynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Powys. Mae'r safle y cyfeirir ato fel tir ar Gypsy Castle Lane (Cyfeirnod: MUA 1) yn ffinio â therfyn anheddiad y Gelli Gandryll. Ystyrir y byddai datblygu'r safle hwn yn bodloni gofynion y dangosydd hwn.
	Argymhelliad: Caiff y dangosydd hwn ei fonitro dros gyfnod o dair blynedd. Gan na roddwyd caniatâd i ddatblygu unrhyw dir ar gyfer cyflogaeth hyd yma (ac nid yw CDLl Cyngor Sir Powys wedi'i fabwysiadu ychwaith), caiff y dangosydd ei fonitro am ddwy flynedd arall neu nes bydd y targed monitro wedi'i gyrraedd.

Ffigur 18

Canllawiau Cynllunio Atodol	
Cwblhawyd yn ystod y cyfnod monitro diwethaf	Mae'r Aelodau wedi cadarnhau'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Arallgyfeirio Ffermydd i'w defnyddio i benderfynu ar geisiadau cynllunio perthnasol.
	Sylwadau: Dim.
	Argymhelliad: Cwblhawyd y Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol. Gan hynny, nid oes angen parhau i fonitro'r dangosydd hwn.

Monitro Polisi

Diogelu'r Amgylchedd

Ffigur 19

Faint o dir yng nghefn gwlad a gollir oherwydd datblygiadau a oedd yn groes i'r CYD LP1	
Parhau i Fonitro	Rhoddwyd un caniatâd a oedd yn groes i CYD LP1 a oedd yn cyfateb i ddefnyddio tir encilfa yn rhinwedd Caniatâd Dros Dro y gwnaed cais amdano am 3 blynedd - gosod uned (4.175m x 2.02m) ar gyfer gweini byrbrydau/diodydd
	Cyfnod Monitro Blaenorol: Caniatâd dros dro i osod cynwysyddion i storio nwyddau fel Cyfleuster Cymunedol gan golli 0.15 hectar o dir dros dro yng nghefn gwlad. Rhoddwyd caniatâd i ddymchwel tai allan, a newid defnydd y tir lle'r oeddent yn sefyll i greu annedd preswyl, adeiladu estyniad newydd at yr annedd presennol a chadw dwy ffenestr, gan golli 0.01 hectar o dir a ddynodwyd yn dir cefn gwlad. Rhoddwyd caniatâd i addasu estyniad i gwrtil preswyl a'i ehangu i dir agored yng nghefn gwlad gan golli 0.16 hectar o dir a ddynodwyd yn dir cefn gwlad. At ei gilydd, collwyd 0.15Ha o dir dros dro a 0.17 hectar yn barhaol
	Sylwadau: Darparodd y Tîm Strategaeth a Pholisi hyfforddiant i Swyddogion Rheoli Datblygu i sicrhau bod y polisi yn cael ei ddehongli'n briodol. Dylid nodi bod nifer yr achosion o fynd yn groes i'r polisi hwn wedi gostwng yn sylweddol, heblaw am gysyniad dros dro ar gyfer uned bwyd/diod ar encilfa cefnffordd.
	Argymhelliad: Argymhellir parhau i fonitro'r dangosydd hwn.

Ffigur 20

Nifer y datblygiadau sy'n cael effaith niweidiol ar Ddynodiadau Tirwedd Hanesyddol	
Parhau i Fonitro	Ni roddwyd caniatâd cynllunio i unrhyw ddatblygiad a fyddai'n cael effaith niweidiol ar Ddynodiadau Tirwedd Hanesyddol
	Cyfnod Monitro Blaenorol: Ni roddwyd caniatâd cynllunio i unrhyw ddatblygiad a fyddai'n cael effaith niweidiol ar Ddynodiadau Tirwedd Hanesyddol.
	Sylwadau: Dim.
	Argymhelliad: Mae'r Awdurdod yn bodloni gofynion y dangosydd hwn. Ystyrir ei fod, fodd bynnag, yn ddangosydd pwysig a bydd yr Awdurdod yn parhau i'w fonitro.

Ffigur 21

Datblygiadau sy'n cael effaith niweidiol ar safleoedd a ddynodwyd ar gyfer cadwraeth natur.	
Parhau i Fonitro	Ni roddwyd caniatâd cynllunio i unrhyw ddatblygiad a fyddai'n cael effaith niweidiol ar safleoedd a ddynodwyd ar gyfer cadwraeth natur.

	Cyfnod Monitro Blaenorol: Ni roddwyd caniatâd cynllunio i unrhyw ddatblygiad a fyddai'n cael effaith niweidiol ar safleoedd a ddynodwyd ar gyfer cadwraeth natur.
	Sylwadau: Dim.
	Argymhelliad: Mae'r Awdurdod yn bodloni gofynion y dangosydd hwn. Ystyrir ei fod, fodd bynnag, yn ddangosydd pwysig a bydd yr Awdurdod yn parhau i'w fonitro.

Ffigur 22

Datblygiadau a fyddai'n cael effaith niweidiol ar: • **Adeilad Rhestredig** • **Ardal Gadwraeth** • **Safle/ardal o Arwyddocâd Hanesyddol** • **Tirwedd, Parc neu Ardd Hanesyddol**	
Ymchwil Polisi	Mae 2 ganiatâd cynllunio wedi'u rhoi a fyddai'n cael effaith fach ar yr ardal gadwraeth, ac maent wedi'u caniatáu o dan Uwch Ardal Gadwraeth Adeiladu.
	Cyfnod Monitro Blaenorol: Ni roddwyd unrhyw ganiatâd cynllunio perthnasol.
	Sylwadau: Yn amlwg, mae peth goddrychedd o ran sut y dehonglir y polisi hwn. Yn y naill sefyllfa a'r llall lle mae caniatâd cynllunio wedi'i roi yn groes i gyngor yr uwch Swyddog Treftadaeth, mae'n rhesymol awgrymu nad oedd y materion dadleuol yn hollbwysig. Yn wir, gydag un caniatâd roedd anghytuno rhwng y swyddog achos a'r Uwch Swyddog Treftadaeth ynglŷn â lliw pibell garthion ac, yn yr achos arall, anghytuno ynglŷn â deunydd a chynllun arwyddion. Fodd bynnag, mae'r dangosydd hwn wedi'i sbarduno a dylid cynnal peth ymchwil polisi i sicrhau bod cyn lleieid o achosion o'r fath â phosibl yn y dyfodol.
	Argymhelliad: Mae'n amlwg nad yw gofynion y dangosydd hwn yn cael eu bodloni'n llawn. Gan hynny, mae angen ymchwilio ymhellach i ganiatâd cynllunio cyfeirnod 15/12267/FUL a Chaniatâd Hysbysebu 15/12591/ADV i bennu amgylchiadau penodol pob achos. Efallai y bydd yr ymchwiliad hwn yn arwain at yr angen am fwy o hyfforddiant i swyddogion mewn perthynas â'r dangosydd hwn. Byddai'r hyfforddiant hwn yn cael ei ddarparu gan yr Uwch Swyddogion Treftadaeth.

Ffigur 23

Nifer yr Ardaloedd Cadwraeth sydd ag asesiadau cyfredol	
Parhau i Fonitro	Ni chwblhawyd unrhyw Asesiadau o Ardaloedd Cadwraeth yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn.
	Cyfnod Monitro Blaenorol: Ni chwblhawyd unrhyw Asesiadau o Ardaloedd Cadwraeth.
	Sylwadau: Mae'r Ardal Gadwraeth yng Nghrucywel a Llangatwg yn cael ei hasesu ar hyn o bryd. Yn dilyn trafodaethau â'r rhanddeiliaid lleol (Cynghorau Tref a Chymuned, y Gymdeithas Ddinesig etc), cytunwyd y dylid bwrw ymlaen â'r asesiad fel rhan o'r Cynllun Tref/Pentref sy'n mynd rhagddo.

	Cafodd Ardal Gadwraeth Talgarth ei hasesu ddiwethaf yn 2010. Bwriadwyd cynnal adolygiad yn 2015, ond ni fu hyn yn bosibl oherwydd roedd Uwch Swyddog Treftadaeth yr Awdurdod wedi bod ar gyfnod o absenoldeb salwch estynedig cyn dychwelyd i'r gwaith yn raddol. Disgwylir y caiff yr adolygiad ei gynnal yn 2016 ynghyd ag adolygiad o Aberhonddu a'r Gelli Gandryll (a aseswyd ddiwethaf yn 2011). Mae hyn bellach wedi digwydd ac felly bydd angen cynnal yr adolygiad nesaf yn 2021. Byddwn hefyd yn ystyried yr adolygiad o weddill ardal y Parc Cenedlaethol o ran dynodiadau ardaloedd cadwraeth pellach. Rhagwelir y bydd hyn yn cael ei wneud yn ystod 2017.
	Argymhelliad: Caiff asesiad o'r dangosydd hwn ei sbarduno os na chaiff yr Ardaloedd Cadwraeth eu hasesu erbyn 2017. Gan hynny, bydd yr Awdurdod yn parhau i fonitro'r mesur hwn nes cwblheir yr asesiadau

Ffigur 24

Canllawiau Cynllunio Atodol	
Cwblhawyd yn rhannol yn ystod y cyfnod monitro blaenorol. **Cwblhawyd Archwiliad Bioamrywiaeth yn 2016.**	Yn unol â gofynion Fframwaith Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol, mae'r Aelodau wedi cymeradwyo'r Canllawiau Cynllunio Atodol a ganlyn i'w defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio perthnasol: • Llygredd golau • Archwiliad bioamrywiaeth Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n ymwneud ag Arfer Gorau ym maes Bioamrywiaeth wedi'u cyhoeddi a'u hardystio ar gyfer eu defnyddio wrth bennu ceisiadau cynllunio perthnasol. Bu oedi cyn cyhoeddi'r Canllawiau, yn rhannol oherwydd y gwaith sydd wedi'i wneud i ymestyn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Archwiliad Bioamrywiaeth i gynnwys gweddill Anheddiad Allweddol Lefel 2 Pontsenni a Defynnog.
	Sylwadau: Dim.
	Argymhelliad: Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Lygredd Golau wedi'u cwblhau. Nid oes angen parhau i fonitro'r dangosydd hwn.

Newid yn yr Hinsawdd, Dylunio Cynaliadwy ac Ynni Adnewyddadwy

Ffigur 25

Nifer y datblygiadau a ganiateir mewn ardaloedd gorlifdir C1 ac C2 nad ydynt yn bodloni holl brofion Nodyn Cyngor Technegol 15	
Parhau i Fonitro	Ni roddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad yn ardaloedd gorlifdir C1 neu C2 nad oedd yn bodloni profion Nodyn Cyngor Technegol 15.
	Cyfnod Monitro Blaenorol: Ni roddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad yn ardaloedd gorlifdir C1 neu C2 nad oedd yn bodloni profion Nodyn Cyngor Technegol 15.
	Sylwadau: Dim.

	Argymhelliad: Mae'r Awdurdod yn bodloni gofynion y dangosydd hwn. Ystyrir ei fod, fodd bynnag, yn ddangosydd pwysig a bydd yr Awdurdod yn parhau i'w fonitro.

Ffigur 26

Nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwyir yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru Welsh Water mewn perthynas ag ansawdd dŵr neu faint o ddŵr sydd ar gael.	
Parhau i Fonitro	Ni roddwyd caniatâd cynllunio yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru Welsh Water mewn perthynas ag ansawdd/faint o ddŵr sydd ar gael.
	Cyfnod Monitro Blaenorol: Ni roddwyd caniatâd cynllunio yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru Welsh Water mewn perthynas ag ansawdd/faint o ddŵr sydd ar gael.
	Sylwadau: Dim.
	Argymhelliad: Mae'r Awdurdod yn bodloni gofynion y dangosydd hwn. Ystyrir ei fod, fodd bynnag, yn ddangosydd pwysig a bydd yr Awdurdod yn parhau i'w fonitro.

Ffigur 27

Nifer y ceisiadau cynllunio sy'n ystyried technegau addasu i'r newid yn yr hinsawdd mewn Datganiad Dylunio a Mynediad	
Parhau i Fonitro	Ni chafwyd unrhyw geisiadau cynllunio nad oedd y Datganiad Dylunio a Mynediad cysylltiedig yn ystyried dulliau o addasu i'r newid yn yr hinsawdd.
	Cyfnod Monitro Blaenorol: Ni chafwyd unrhyw geisiadau cynllunio nad oedd y Datganiad Dylunio a Mynediad cysylltiedig yn ystyried dulliau o addasu i'r newid yn yr hinsawdd.
	Sylwadau: Dim.
	Argymhelliad: Mae'r Awdurdod yn bodloni gofynion y dangosydd hwn. Ystyrir ei fod, fodd bynnag, yn ddangosydd pwysig a bydd yr Awdurdod yn parhau i'w fonitro.

Ffigur 28

Nifer y ceisiadau ar gyfer datblygiadau mwy nad ydynt yn defnyddio adnoddau carbon isel neu ddi-garbon i gynhyrchu 20% o'u hynni.	
Rhoddwyd y gorau i fonitro ar ôl y cyfnod monitro blaenorol	Wedi rhoi'r gorau i fonitro.
	Cyfnod Monitro Blaenorol: Preswyl – Cafodd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol chwe chais ar gyfer tri o anheddau neu ragor yn ystod y cyfnod. O'r rhain, nid oedd yr un yn cyrraedd y targed o ddefnyddio adnoddau adnewyddadwy i gynhyrchu 20% o'u hynni. Llwyddodd 1 i gynhyrchu 15% o'i ynni drwy ddefnyddio paneli PV i gynhyrchu ynni ar gyfer yr holl fannau cyffredin o fewn ailddatblygiad cartref nyrsio i fod yn unedau marchnad. Ni ddefnyddiwyd technoleg LCZ yng nghynlluniau'r 3 arall. Cynhyrchu cyflogaeth - ni roddwyd caniatâd i ddatblygiadau ag arwynebedd llawr o dros 500 metr sgwâr yn ystod y cyfnod preswyl.
	Sylwadau:

	Cyflwynwyd y dangosydd hwn o ganlyniad i ofynion Polisi SP11 (Datblygiad Cynaliadwy) gan ei fod wedi'i ddrafftio'n wreiddiol yn y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo. Fodd bynnag, tynnodd yr Arolygwr y gofyniad penodol hwn o'r polisi, fod bynnag, wedi iddo archwilio'r Cynllun Datblygu Lleol gan ei fod yn mynd y tu hwnt i ofynion y Polisi Cynllunio Cenedlaethol. Oherwydd amryfusedd yn unig y mae'n parhau yn y Fframwaith Monitro; ni sylwyd arno yn ystod y broses olygu ac felly ni chafodd ei ddiwygio drwy Newidiadau yn y Materion yn Codi. Yn y bôn, nid oes polisi yn y Cynllun i orfodi'r gofyniad hwn ac, felly, argymhellir na ddylid parhau i fonitro'r dangosydd. At hyn, nid oes angen i ddatblygwyr bellach ddarparu asesiad o dan y Cod Cartrefi Cynaliadwy gan y caiff hyn ei asesu o dan y Rheoliadau Adeiladu.
	Argymhelliad: Rhoddwyd y gorau i fonitro ar ôl y cyfnod monitro blaenorol.

Ffigur 29

Datblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy	
Parhau i Fonitro	Rhoddodd y Parc Cenedlaethol ganiatâd i 11 o gynlluniau yn ystod y cyfnod ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy ac roedd y rhan fwyaf o'r rhain ar gyfer cynlluniau hydro bach. Nid ystyriwyd y byddai'r un ohonynt yn cael effaith niweidiol sylweddol ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.
	Cyfnod Monitro Blaenorol: Rhoddodd y Parc Cenedlaethol ganiatâd i 22 o gynlluniau yn ystod y cyfnod ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy ac roedd y rhan fwyaf o'r rhain ar gyfer cynlluniau hydro bach. Nid ystyriwyd y byddai'r un ohonynt yn cael effaith niweidiol sylweddol ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.
	Sylwadau: Dim.
	Argymhelliad: Mae'r Awdurdod yn bodloni gofynion y dangosydd hwn. Ystyrir ei fod, fodd bynnag, yn ddangosydd pwysig a bydd yr Awdurdod yn parhau i'w fonitro.

Ffigur 30

Capasiti caniatedig a gosodedig (MW) mewn perthynas â phrosiectau trydan a gwres adnewyddadwy.	
Parhau i Fonitro	Mae'r cynlluniau a ganiatawyd yn cyfateb i gynnydd o 0.3 megawat o ran capasiti ynni cynlluniau ynni adnewyddadwy
	Cyfnod Monitro Blaenorol: Mae'r cynlluniau a ganiatawyd yn cyfateb i gynnydd o 0.41 megawat o ran capasiti ynni cynlluniau ynni adnewyddadwy
	Sylwadau: Dim.
	Argymhelliad: Mae'r Awdurdod yn bodloni gofynion y dangosydd hwn. Ystyrir ei fod, fodd bynnag, yn ddangosydd pwysig a bydd yr Awdurdod yn parhau i'w fonitro.

Ffigur 31

Ôl-troed ecolegol aneddiadau rhestredig	
Parhau i Fonitro	Nid oes data ar gael ar gyfer eleni.
	Cyfnod Monitro Blaenorol: Ni does data ar gael ar gyfer eleni.

	Sylwadau: Dim.
	Argymhelliad: Mae'r Parc Cenedlaethol yn gweithio gyda'n partneriaid ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd i geisio casglu data neu i gael hyd i ddata arall y mae'n haws cael gafael arno.

Ffigur 32

Canllawiau Cynllunio Atodol	
Cwblhawyd yn ystod y cyfnod monitro blaenorol	Yn unol â gofynion Fframwaith Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol, mae'r Aelodau wedi cymeradwyo'r Canllawiau Cynllunio Atodol i'w defnyddio wrth benderfynu ar y ceisiadau cynllunio perthnasol: • Datblygu Cynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru • Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy ar Raddfa Fach
	Sylwadau: Dim.
	Argymhelliad: Cwblhawyd y Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol. Gan hynny, nid oes angen parhau i fonitro'r dangosydd hwn.

Manwerthu

Ffigur 33

Cyfraddau'r unedau gwag blynyddol yng nghanol trefi'r Parc Cenedlaethol	
Parhau i Fonitro	Aberhonddu – 8% Crucywel - 4% Y Gelli Gandryll - 2% Talgarth - 11%
	Cyfnod Monitro Blaenorol: Aberhonddu – 9% Crucywel - 6% Y Gelli Gandryll - 2% Talgarth - 8%
	Sylwadau: Caiff y targed monitro dros dro ei fonitro tan 2017. Fodd bynnag, cafodd canol y trefi eu hasesu i gael y wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn. Mae nifer yr unedau gwag yn Aberhonddu, y Prif Anheddiad Allweddol, yn debygol o gyrraedd y targed a bennwyd, sef llai na 10%. Cofnodwyd canran o 9% yn yr asesiad a gynhaliwyd yn gynharach eleni. 2% yw canran yr unedau gwag yn y Gelli Gandryll felly mae'n debygol y caiff y targed a bennwyd, sef llai na 5%, ei gyrraedd yma hefyd. Mae targed Talgarth gryn dipyn yn uwch, sef 25%, ond gan mai 8% o unedau gwag sydd yno, ni fydd yn anodd cyrraedd y targed. Ar 41%, dylai Crucywel fodloni'r targed unedau gwag, sef dan 5%. Y llynedd, Crucywel oedd yr unig anheddiad a oedd â chyfradd unedau gwag uwch na'r targed – gan fethu'r targed o 1%. Mae'r ganran, fodd bynnag yn gymharol isel, ac nid yw'n ddigon uchel i sbarduno asesiad ar gyfer y dangosydd hwn.

	Argymhelliad: Bydd y dangosydd hwn yn cael ei fonitro am flwyddyn arall.

Twristiaeth Gynaliadwy

Ffigur 34

Nifer y cyfleusterau twristiaeth newydd / wedi'u gwella	
Parhau i Fonitro	Rhoddodd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol 7 caniatâd cynllunio yn y cyfnod ar gyfer cyfleusterau twristiaeth newydd neu well.
	Cyfnod Monitro Blaenorol: Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 1 ganolfan dwristiaeth newydd yn ystod y cyfnod (canolfan gwersylla a physgota Bryncoch).
	Sylwadau:

Cyfeiriad	**Cyf**	**Disgrifiad o'r Datblygiad**
Coel Bren Llandyfan Rhydaman SA18 2TY	14/11703/FUL	Defnydd ôl-weithredol o lynnoedd pysgota at ddibenion hamdden, llwybr a maes parcio cysylltiedig, y defnydd o dir amaeth ar gyfer gwersylla tymhorol a chodi bloc toiledau a chawodydd.
Little Llwyn Gwyn Farm Old Hereford	14/11716/FUL	Addasu ysgubor yn gyfleuster chwaraeon/hamdden ar gyfer cynnal a chadw beiciau gyda llety tai bynciau atodol.
Cefn Cantref Cantref Aberhonddu LD3 8LT	15/12500/FUL	Newid defnydd. Sefydlu maes pebyll ar gyfer hyd at 30 o bebyll ac addasu rhan o adeilad amaethyddol yn floc amwynderau maes pebyll.
Ewan Brook Farm Cwm-Du Crucywel NP8 1SB	15/12668/FUL	Newid defnydd tir, 2 gwt bugeiliaid (llety gwyliau).
Cwmberach Uchaf Ffordd Llandeilo Garnant Rhydaman SA18 2DZ	15/12672/FUL	5 pabell led-barhaol ar gyfer llety twristiaid a newid defnydd ysgubor yn floc cawodydd a siop gonestrwydd ger y llety twristiaid.
Cwmdu Caravan And Camping Site Cwmdu Crucywel NP8 1RU	15/12852/FUL	Bloc toiledau a chawodydd arfaethedig a gosod tanc carthion
Cambrian Cruisers Tŷ Newydd Pencelli Aberhonddu Powys LD3 7LJ	15/13039/FUL	Adeiladu bloc toiledau a chawodydd ar wahân.

Argymhelliad:

	Mae'r Awdurdod yn bodloni gofynion y dangosydd hwn. Ystyrir ei fod, fodd bynnag, yn ddangosydd pwysig a bydd yr Awdurdod yn parhau i'w fonitro.

Cymunedau Cynaliadwy

Ffigur 35

Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd a arweiniodd at golli cyfleusterau cymunedol	
Parhau i Fonitro	Ni chymeradwywyd unrhyw ganiatâd yn groes i Bolisi Strategol SP15 a'r nod amddiffynnol o Bolisi 50 yn arwain at golli cyfleusterau cymunedol.
	Cyfnod Monitro Blaenorol: Ni chafwyd unrhyw geisiadau a arweiniodd at golli cyfleusterau cymunedol.
	Sylwadau: Dim.
	Argymhelliad: Mae'r Awdurdod yn bodloni gofynion y dangosydd hwn. Ystyrir ei fod, fodd bynnag, yn ddangosydd pwysig a bydd yr Awdurdod yn parhau i'w fonitro.

Seilwaith

Ffigur 36

Nifer y datblygiadau newydd sy'n darparu Systemau Draenio Cynaliadwy	
Parhau i Fonitro	Roedd yr holl geisiadau perthnasol a gymeradwywyd yn ystyried gofynion Systemau Draenio Cynaliadwy..
	Cyfnod Monitro Blaenorol: Nid yw'r data ar gael ar hyn o bryd.
	Sylwadau: Mae un datblygiad wedi derbyn caniatâd cynllunio yn y cyfnod yn defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy. Mewn ymgynghoriad â'r awdurdod draenio perthnasol a Dŵr Cymru, ystyriwyd bod ffyrdd eraill o gael gwared ar ddŵr wyneb yn briodol mewn achosion eraill. Cymeradwyir yn *Nodyn Cyfarwyddyd Technegol 12: Cynllunio* y gallai meini prawf ar gyfer datblygu cynllun a dulliau y gellir eu cynnwys o fewn cynllun gynnwys mesurau draenio cynaliadwy drwy'r cynllun i gyd a nodweddion cynllunio sy'n peri bod modd rheoli canlyniadau llifogydd yn dderbyniol. Ffordd briodol o gyfiawnhau'r ffyrdd priodol o ddelio â dŵr wyneb fyddai drwy Ddatganiad Cynllunio a Mynediad atodol. Fodd bynnag, mae'r is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 wedi pennu nad oes angen Datganiad Cynllunio a Mynediad bellach ar gyfer ceisiadau cynllunio oni bai bod o fewn y categori 'Sylweddol' (h.y. 10 annedd neu fwy). Ar y sail y bydd ceisiadau bach perthnasol yn cael eu penderfynu mewn ymgynghoriad â'r awdurdod draenio perthnasol a Dŵr Cymru beth bynnag, ystyrir bod Ffigur 26 uchod yn darparu dangosydd priodol ar gyfer monitro'r mater hwn. Gan hynny, argymhellir bod Ffigur 36 yn parhau i gael ei fonitro, ond yn arbennig mewn cysylltiad â cheisiadau mawr lle mae Datganiad Cynllunio a Mynediad wedi'i gyflwyno sy'n mynd i'r afael, ymysg pethau eraill, â draenio cynaliadwy.
	Argymhelliad: Ystyrir bod hwn yn ddangosydd pwysig a bydd yn parhau i gael ei fonitro mewn perthynas â cheisiadau cynllunio sylweddol.

Gwastraff

Ffigur 37

Nifer yr unedau gwag yn y safleoedd dosbarth B y nodwyd eu bod yn addas ar gyfer cynllun gwastraff lleol	
Parhau i Fonitro	0.5Ha ar dir gwag yn Aberhonddu a 5 uned wag (cyfanswm o 540.3 m2) 0.1Ha ar dir gwag yn Nhalgarth ac 1 uned (324.8m2) 20 o unedau gwag ym Mharc Granada,, Crucywel (cyfanswm o 0.27Ha) 1 uned wag ar Forest Road, Y Gelli Gandryll (101.71m2)
	Cyfnod Monitro Blaenorol: 0.5Ha ar dir gwag yn Aberhonddu 0.1Ha ar dir gwag yn Nhalgarth ac 1 uned (316m2) 6 uned wag ym Mharc Granada, Crucywel, cyfanswm o (758m2)
	Sylwadau: Dylid nodi bod y tir gwag sydd wedi'i nodi yn Aberhonddu yn amodol ar ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygu uned B1 newydd a gafodd ganiatâd cynllunio ar 12 Ebrill 2016. Mae'r gwaith datblygu wedi dechrau ar y safle ac yn sgil hynny ni fydd y tir hwn 'ar gael' ar gyfer cyfleuster gwastraff lleol y flwyddyn nesaf.
	Argymhelliad: Mae'r Awdurdod yn bodloni gofynion y dangosydd hwn. Ystyrir ei fod, fodd bynnag, yn ddangosydd pwysig a bydd yr Awdurdod yn parhau i'w fonitro.

Ffigur 38

Nifer y cyfleusterau rheoli gwastraff trwyddedig newydd a ganiateir	
Parhau i Fonitro	Ni roddwyd caniatâd ar gyfer unrhyw gyfleusterau rheoli gwastraff newydd yn ystod y cyfnod
	Cyfnod Monitro Blaenorol: Ni roddwyd caniatâd ar gyfer unrhyw gyfleusterau rheoli gwastraff newydd yn ystod y cyfnod.
	Sylwadau: Bydd yr Awdurdod yn cysylltu â'r Awdurdodau Unedol Cyfansoddol i holi a oes unrhyw ganiatâd wedi'i roi y tu hwnt i'r ffin a fyddai'n ateb gofynion y rhai sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol.
	Argymhelliad: Caiff y dangosydd hwn ei fonitro am flwyddyn arall tan 2017.

Mwynau

Ffigur 39

Nifer y ceisiadau a ganiateir ar gyfer datblygiad parhaol a fydd yn peri bod mwynau'n cael eu colli o fewn ardal diogelu mwynau	
Parhau i Fonitro	Ni roddwyd caniatâd ar gyfer unrhyw ddatblygiad parhaol a fydd yn peri bod mwynau'n cael eu colli o fewn ardal diogelu mwynau.
	Cyfnod Monitro Blaenorol: Ni roddwyd caniatâd ar gyfer unrhyw ddatblygiad parhaol a fydd yn peri bod mwynau'n cael eu colli o fewn ardal diogelu mwynau.
	Sylwadau: Dim.
	Argymhelliad: Mae'r Awdurdod yn bodloni gofynion y dangosydd hwn. Ystyrir ei fod, fodd bynnag, yn ddangosydd pwysig a bydd yr Awdurdod yn parhau i'w fonitro.

Monitro Safleoedd

Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Adroddiad Monitro Blynyddol, mae'r Awdurdod wedi cytuno i gynnwys gwybodaeth am hynt a datblygiad y safleoedd a ddyrannwyd. Y nod yw tynnu sylw at y gwaith a wnaed, gan gynnwys paratoi astudiaethau, ceisiadau a/neu hynt unrhyw ddatblygiadau. Gan hynny, mae'r tabl isod yn ceisio dangos y cynnydd a wnaed ar y safleoedd a ddyrannwyd yn ôl cerrig milltir penodol:

Ffigur 41

Safle	Nifer dangosol yr unedau	Briff datblygu wedi'i gyflwyno	Briff datblygu wedi'i gytuno	Cais wedi'i gyflwyno	Yn debygol o gael caniatâd yn amodol ar adran 106	Rhoddwyd caniatâd cynllunio	Gwaith datblygu wedi dechrau
Y 5 mlynedd gyntaf							
CS28 – Estyniad Caeau Cwmfalldau Aberhonddu	66	AMH	AMH	Naddo			
CS132 – Tir gyferbyn ag ysgol Uwchradd Aberhonddu	30	Do	Do	Do			
SALT 061 – Tir gerllaw Lôn Llangenni Crucywel	20	AMH	AMH	Do	Ydy	Do	Do
DBR-HOW-A – Tir gyferbyn â The Meadows, y Gelli Gandryll	62	AMH	AMH	Do	Ydy	Naddo	
SALT 059 – Tir yn cyffinio â Brecon Pharmaceuticals, y Gelli Gandryll	5	AMH	AMH	Naddo			
SALT 037 – Estyniad arfaethedig i T9, Talgarth	15	Do	Do	Do			
DBR-BCH-J - Tir gerllaw	15	AMH	AMH	Naddo			

Safle	Nifer dangosol yr unedau	Briff datblygu wedi'i gyflwyno	Briff datblygu wedi'i gytuno	Cais wedi'i gyflwyno	Yn debygol o gael caniatâd yn amodol ar adran 106	Rhoddwyd caniatâd cynllunio	Gwaith datblygu wedi dechrau
Coedwig Bwlch, Bwlch							
CS102 – Dan-y-Bryn a Lancaster Drive, Gilwern	112	AMH	AMH	Do	Ydy	Do	Do
DBR-LIB-E - Tir gerllaw Pen y Fan Close, Libanus	3	AMH	AMH	Do	Ydy		
DBR-LBD-A – Tir gerllaw St Peter's Close	8	AMH	AMH	Do	Ydy	Do	Naddo
DBR-LGN-D – Tir gyferbyn ag Ysgol Gynradd Llanigon, Llanigon	10	AMH	AMH	Naddo			
DBR-LPD-A – Tir oddi ar Heol St Cattwg, Llansbyddyd	10	AMH	AMH	Do			
DBR-PNT-D – Tir gerllaw Ambleside, Pennorth	6	AMH	AMH	Naddo			
CS66 – Hen wersyll y fyddin, Cwrt y Gollen	70	Do	Do	Do	Ydy	Do	
Gweddill cyfnod y CDLl							
CS93 – Slwch House	23	AMH	AMH	Naddo			

Safle	Nifer dangosol yr unedau	Briff datblygu wedi'i gyflwyno	Briff datblygu wedi'i gytuno	Cais wedi'i gyflwyno	Yn debygol o gael caniatâd yn amodol ar adran 106	Rhoddwyd caniatâd cynllunio	Gwaith datblygu wedi dechrau
Field, Aberhonddu							
DBR-BR-A – Safle i'r gogledd o Camden Crescent, Aberhonddu	38	AMH	AMH	Naddo			
DBR-BR-B – Safle i'r gogledd o Cradoc Close, Aberhonddu	33	AMH	AMH	Naddo			
CS132 – Tir gyferbyn ag Ysgol Uwchradd Aberhonddu	107	Do	Do	Do			
DBR-CR-A – Tir uwchben Telebentref, Crucywel	20	AMH	AMH	Do	Ydy	Do	
CS138 – Glannau Senni, Defynnog	15	AMH	AMH	Naddo			
DBR-HOW-C – Tir gerllaw'r Orsaf Dân	13						
CS42 – Tir yng Nghrai, Crai	9	AMH	AMH	Do	Ydy	Naddo	
CS43 – Tir i'r de-orllewin o Gwalia, Crai	6	AMH	AMH	Naddo			
CS39/69/70/88/89/99 – Tir yn Nhŷ Clyd, Gofilon	93	AMH	AMH	Do	Ydy	Naddo	

Safle	Nifer dangosol yr unedau	Briff datblygu wedi'i gyflwyno	Briff datblygu wedi'i gytuno	Cais wedi'i gyflwyno	Yn debygol o gael caniatâd yn amodol ar adran 106	Rhoddwyd caniatâd cynllunio	Gwaith datblygu wedi dechrau
CS120 – Tir i'r de o Dŷ Melys, Pencelli	6	AMH	AMH	Naddo			
CS55 – Tir ym Mhenygarn, Pontsticill	6	AMH	AMH	Naddo			
DBR-PTSC/C – Tir ym mhen draw Dan-y-Coed, Pontsticill	3	AMH	AMH	Naddo			
CS91 – Tir i'r gorllewin o Ponsticill House, Pontsticill	6	AMH	AMH	Naddo			
CS127 – Maesmawr Farm, Talybont	57	AMH	AMH	Naddo			
CS111 – Hen Ysbyty Canolbarth Cymru	93	Naddo	Naddo	Naddo			

Y 5 mlynedd gyntaf

Nodir mai dim ond mewn perthynas â 6 safle y cyflwynwyd cais cynllunio yn y cyfnod hwn, a dim ond un datblygwr sydd wedi dechrau ar y gwaith datblygu. Yn unol ag argymhellion Adroddiad Monitro Blynyddol y llynedd, ysgrifennodd Swyddogion at dirfeddianwyr i ddweud wrthynt fod posibilrwydd y caiff eu safleoedd eu tynnu oddi ar y rhestr o safleoedd a ddyrannwyd yn ystod y cyfnod Adolygu os na fyddant yn bwrw ymlaen i'w datblygu. Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r llythyr gan bob un o'r tirfeddianwyr gan ddweud y bydd ceisiadau cynllunio'n cael eu cyflwyno ar gyfer y safleoedd yn y dyfodol agos. Yn wir, mae un cais wedi'i gyflwyno i gael ei ystyried ac mae safle arall yn destun ymchwiliad cyn cyflwyno cais.

Gweddill oes y cynllun

Mae ychydig llai eto wedi digwydd mewn perthynas â'r safleoedd hyn ac mae ceisiadau cynllunio wedi cael eu cyflwyno ar gyfer pedwar ohonynt - mae bwriad i ganiatáu dau ohonynt yn amodol ar Gytundeb Adran 106 ac mae un wedi cael ei ganiatáu. Er bod yr Awdurdod yn sylweddoli bod diffyg seilwaith dŵr yn cyfyngu ar nifer o'r safleoedd hyn, mae Swyddogion yn bwriadu cysylltu â'r tirfeddianwyr i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ynghyd ag amserlen debygol ar gyfer bwrw ymlaen â'r gwaith o'u datblygu.

Safleoedd Defnydd Cymysg
Yn achos y safleoedd defnydd cymysg a ddyrannwyd (Ysbyty Canolbarth Cymru, Cwrt y Gollen, Ffordd y Gelli Gandryll a thir gyferbyn â'r ysgol uwchradd), dylid nodi bod paragraff 7.2.1 o'r Cynllun Datblygu Lleol yn nodi bod angen cytuno ar y briffiau datblygu ar y safle cyn cyflwyno unrhyw gais cynllunio. Gan hynny, cytunwyd ar y Briffiau ar gyfer Cwrt y Gollen, Ffordd y Gelli Gandryll a'r tir gyferbyn â'r Ysgol Uwchradd.

Yr unig friff arall i'w gyflwyno yw hwnnw'n ymwneud â hen safle Ysbyty Canolbarth Cymru. Rhoddwyd cryn dipyn o gyngor cyn cyflwyno cais mewn perthynas â'r safle penodol hwn ac mae trafodaethau wedi'u cynnal am gynnwys a chyfansoddiad unrhyw friff drafft. Mae'r Awdurdod yn disgwyl i'r briff gael ei gyflwyno a byddai'n rhesymol disgwyl i fersiwn ddrafft gael ei chyflwyno erbyn gwanwyn 2017.

Argymhellion

Gwaith monitro wedi'i gwblhau
Bodlonwyd nifer o ofynion y dangosyddion yn ystod cyfnod monitro cyntaf y Cynllun Datblygu Lleol ac, felly, ni fydd angen monitro'r rhain mwyach. Dyma'r dangosyddion:

- Meddiannu'r safle a ddyrannwyd i Sipsiwn a Theithwyr;
- Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â'r canlynol:
    - Tai fforddiadwy
    - Rhwymedigaethau cynllunio
    - Datblygiadau priodol yng nghefn gwlad
    - Arallgyfeirio ffermydd
    - Llygredd golau
    - Datblygu cynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru
    - Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy ar Raddfa Fach
    - Diogelu mwynau

Yn ystod y cyfnod monitro diweddaraf, mae gofynion canlynol y dangosyddion canlynol wedi cael eu bodloni:

- Yr adolygiad o Ardaloedd Cadwraeth Aberhonddu, Talgarth a'r Gelli Gandryll
- Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â'r canlynol:
    - Yr Archwiliad Bioamrywiaeth
    - Bioamrywiaeth

Rhoi'r gorau i'r gwaith monitro
Argymhellir hefyd y dylid rhoi'r gorau i fonitro'r dangosydd a ganlyn:

- Nifer y ceisiadau ar gyfer datblygiadau mwy nad ydynt yn defnyddio adnoddau carbon isel neu ddi-garbon i gynhyrchu 20% o'u hynni

Ystyrir nad yw'r dangosydd carbon isel a di-garbon yn ffordd briodol o fesur gan nad yw'n ymwneud ag unrhyw bolisïau penodol yn y Cynllun Datblygu Lleol. Hynny yw, nid oes polisïau na chanllawiau yn y Cynllun Datblygu Lleol sy'n cymell ymgeiswyr i gyrraedd y targed o 20% yn ymwneud ag ynni carbon isel neu ddi-garbon.

Cyflwynwyd y dangosydd hwn o ganlyniad i ofynion Polisi SP11 (Datblygiad Cynaliadwy) fel y'i drafftiwyd yn wreiddiol yn y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo. Tynnodd yr Arolygwr y gofyniad penodol hwn o'r polisi, fodd bynnag, wedi iddo archwilio'r Cynllun Datblygu Lleol gan ei fod yn mynd y tu hwnt i ofynion y Polisi Cynllunio Cenedlaethol. Oherwydd amryfusedd yn unig y mae'n parhau yn y Fframwaith Monitro; ni sylwyd arno yn ystod y broses olygu ac felly ni chafodd ei ddiwygio drwy Newidiadau yn y Materion yn Codi. Serch hynny, mae nifer o ddangosyddion yn ymwneud â'r Newid yn yr Hinsawdd, Dylunio Cynaliadwy ac Ynni Adnewyddadwy wedi parhau i gael eu monitro yn ogystal â gofynion monitro'r Asesiad Amgylcheddol Strategol

Ar gyfer y cyfnod monitro diweddaraf, argymhellir bod gwaith monitro'n parhau ar gyfer yr holl ddangosyddion perthnasol (ar wahân i'r rheini lle mae'r gofynion wedi'u bodloni fel y nodir uchod) .

Monitro yn y dyfodol a gwaith ychwanegol

Yn dilyn y cyfnod monitro cyntaf, penderfynwyd y byddai'r gwaith monitro'n parhau mewn perthynas â mwyafrif helaeth y dangosyddion, yn unol â gofynion Fframwaith Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol. Roedd angen rhywfaint o waith ychwanegol mewn perthynas â nifer fechan o'r rhain a hynny ar ffurf ymchwil polisi, Canllawiau Cynllunio Atodol a hyfforddiant i Swyddogion/Aelodau a gafodd ei gynnal yn ystod yr ail gyfnod monitro.

Ymchwil Polisi

Y dangosydd cyntaf y bydd angen cynnal ymchwil polisi ychwanegol yn ei gylch yw hwnnw'n ymwneud â **nifer yr anheddau y rhoddir caniatâd cynllunio iddynt a'r nifer a gwblheir bob blwyddyn.**

Bydd yn fuddiol ymchwilio i'r hyn y mae Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yn ei wneud o ran darparu tai, er mwyn cael darlun ehangach a deall y problemau drwy Gymru yn gyffredinol. Byddai astudiaeth o'r Awdurdodau Cyfansoddol a'r ddau Awdurdod Parc Cenedlaethol arall yn sampl digon eang. Er nad yw'r gwaith ymchwil hwn wedi'i wneud fel y disgrifiwyd hyd yma, yn ôl dadansoddiad o'r tir sydd ar gael ar gyfer adeiladu tai yng Nghymru, nid oes gan 17 o'r 25 Awdurdod Cynllunio gyflenwad 5 mlynedd (gyda chyfartaledd Cymru yn 3.9 mlynedd o gyflenwad). O ystyried bod gan 22 o'r 25 Awdurdod gynllun datblygu ar hyn o bryd (nid Cynlluniau Datblygu Lleol ydynt i gyd), mae hyn yn awgrymu bod yna broblem eang o ran darparu tai.

Mae'n rhesymol awgrymu bod y broses o roi Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol ar waith yn mynd rhagddo'n dda yn dilyn y cyfnod monitro cyntaf. Er mai hwn yw'r Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol, a bod ceisiadau cynllunio wedi'u cyflwyno ar gyfer nifer o'r safleoedd a ddyrannwyd, dylid nodi mai'n araf deg y digwyddodd hyn ac na chyflwynwyd ceisiadau cynllunio ar gyfer nifer o'r safleoedd. Gan hynny, argymhellwyd ymchwilio ymhellach i'r rheswm pam na chyflwynwyd ceisiadau cynllunio ar gyfer 8 o'r 14 safle a ddyrannwyd ar gyfer 5 mlynedd gyntaf oes y cynllun. Cysylltodd swyddogion â'r tirfeddianwyr yn uniongyrchol i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf a hefyd i fanteisio ar y cyfle i ddweud wrthynt y bydd yr Awdurdod yn ystyried tynnu eu safleoedd o'r Cynllun Datblygu Lleol yn ystod yr Adolygiad os na fyddant wedi bwrw ymlaen i'w datblygu yn ystod 5 mlynedd gyntaf y cynllun. Dywedodd y tirfeddianwyr perthnasol wrth y swyddogion y byddai'r safleoedd yn cael eu datblygu yn y dyfodol agos ac, mewn gwirionedd, cafodd un cais ei gyflwyno wedyn.

Gan droi at y dangosydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r **holl geisiadau cynllunio a ganiateir sicrhau dwysedd o 30 o anheddau ar bob hectar**, roedd angen cynnal gwaith ymchwil polisi i'r canlynol yn dilyn y cyfnod monitro cyntaf:

- Nifer y safleoedd a ddyrannwyd (yn benodol) y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt er bod y dwysedd yn llai na 30 o anheddau ar bob hectar; a
- Rhoi rhesymau penodol dros ganiatáu dwysedd is.

Fel y nodir uchod, argymhellwyd y byddai angen hyfforddiant a Chanllawiau Cynllunio Atodol ychwanegol mewn perthynas â'r mater arbennig hwn. Byddai hyn, fodd bynnag, yn dibynnu ar ganlyniadau'r gwaith ymchwil a awgrymwyd.

Canfu'r ymchwil fod swyddogion yn rhoi'r polisi ar waith yn gywir. Serch hynny, darparwyd hyfforddiant i swyddogion gan y tîm Strategaeth a Pholisi i sicrhau bod pob swyddog (yn enwedig aelodau staff newydd) yn ymwybodol o'r goblygiadau posibl i'r Cynllun Datblygu Lleol.

Y dangosydd olaf yr oedd angen cynnal ymchwil polisi ychwanegol yn ei gylch yn dilyn y cyfnod monitro cyntaf oedd y targedau ar gyfer canran y tai fforddiadwy a godir yn nhair ardal is-farchnad y Parc Cenedlaethol. Roedd data craidd y Gofrestrfa Tir a'r Pecyn Cymorth Arfarnu Datblygiadau yn awgrymu bod gwerth tir wedi cynyddu ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol. O ystyried yr effeithiau cadarnhaol posibl yn ymwneud â hyfywedd datblygiadau, byddai'n fuddiol i'r Awdurdod ystyried profion hyfywedd ychwanegol er mwyn addasu'r targedau ar gyfer canran y tai fforddiadwy a godir (os yw'n briodol) yn ystod y cyfnod adolygu cyntaf.

O ganlyniad i gyfnod monitro 2016-17, argymhellir rhagor o waith ymchwil polisi mewn perthynas â'r dangosyddion canlynol:

- Nifer y ceisiadau sy'n cael eu caniatáu a'r anheddau sy'n cael eu cwblhau bob blwyddyn
- Dwysedd anheddau
- Canran y tai fforddiadwy a godir
- Datblygiadau sy'n cael effaith andwyol ar asedau treftadaeth

Mae'r dangosyddion blynyddol yn awgrymu nad yw **nifer y tai sy'n cael eu cwblhau** yn cyrraedd y lefel ofynnol. O ganlyniad, mae angen gwneud rhagor o waith ymchwil drwy gymharu â nifer y tai a gyflenwir gan Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill. Er bod rhywfaint o waith ymchwil wedi'i wneud yn barod fel y soniwyd uchod, ystyrir bod angen gwaith ymchwil mwy penodol, er enghraifft, cyflenwi tai fel % o'r gofyniad blynyddol mewn awdurdodau eraill tebyg.

Mae'r dangosydd **dwysedd anheddau** yn awgrymu unwaith eto nad yw'r polisi hwn yn cael ei weithredu'n gyfan gwbl o ran nad yw pob safle yn cael ei ddatblygu gyda 30 annedd ar bob hectar. Wrth gwrs, nodir bod hyblygrwydd yn y polisi sy'n caniatáu datblygiadau â llai na 30 annedd ar bob hectar ond byddai'n fuddiol, serch hynny, i gynnal rhywfaint o waith ymchwil pellach i bennu'r rhesymau penodol dros ganiatáu dwysedd anheddau is.

O ran canran y **tai a godir sy'n Dai Fforddiadwy**, mae data'r Gofrestrfa Tir, ynghyd â data'r Pecyn Cymorth Arfarnu Datblygiadau, yn awgrymu bod prisiau tai yn ardal Blaenau'r Cymoedd wedi codi'n sylweddol ar y cyfan, er eu bod wedi gostwng yn 2015/16. Felly, byddai'n fuddiol i'r Awdurdod ystyried profion hyfywedd ychwanegol gyda'r nod o addasu'r targedau ar gyfer Tai Fforddiadwy (os yw'n briodol) yn ystod yr Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol.

Mae'n amlwg nad yw gofynion y dangosydd '**datblygiad sy'n cael effaith andwyol ar asedau treftadaeth**' yn cael eu bodloni'n llwyr. O ganlyniad, mae angen ymchwilio ymhellach i ganiatâd cynllunio cyfeirnod 15/12267/FUL a Chaniatâd Hysbysebu 15/12591/ADV i ganfod amgylchiadau penodol pob achos. Efallai y bydd angen rhoi rhagor o hyfforddiant i swyddogion mewn perthynas â'r dangosydd hwn o ganlyniad i'r ymchwiliad hwn. Byddai'r hyfforddiant hwn yn cael ei ddarparu gan yr Uwch Swyddogion Treftadaeth.

Canllawiau Cynllunio Atodol Ychwanegol
Fel y nodir uchod, yn dibynnu ar ganlyniadau'r ymchwil polisi'n ymwneud â **dwysedd anheddau**, mae'n bosibl y byddai wedi bod yn rhaid datblygu canllawiau atodol perthnasol. Fodd bynnag, roedd canlyniadau'r ymchwil polisi'n awgrymu bod y polisi'n cael ei weithredu'n briodol. Rhoddwyd hyfforddiant i swyddogion beth bynnag.

Roedd y gwaith o baratoi'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud ag **Arfer Da mewn Bioamrywiaeth** wedi dechrau ond, oherwydd y gwaith ychwanegol a oedd yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r **Archwiliad Bioamrywiaeth**, nid oedd wedi'i gwblhau. O gofio bod ardal Pontsenni a Defynnog wedi'i hailddosbarthu'n Anheddiad Allweddol Lefel 2 cyn mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, cytunodd yr Awdurdod i ymestyn yr Archwiliad Bioamrywiaeth i gynnwys yr anheddiad hwn. Gan hynny, mae'r ddau ddarn o waith wedi'u cwblhau mewn pryd ar gyfer Adroddiad Monitro Blynyddol 2015/16.

Ni argymhellir unrhyw ganllawiau cynllunio atodol ychwanegol o ganlyniad i ddangosyddion cyfnod monitro 2015-16. Serch hynny, mae gwaith eisoes wedi dechrau ar ganllawiau cynllunio atodol yn ymwneud â 'Dylunio Deiliaid Tai' a 'Rhandiroedd' a rhagwelir y byddant yn destun ymgynghoriad ac y bydd Aelodau'n cymeradwyo eu defnydd wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio perthnasol mewn pryd ar gyfer Adroddiad Monitro Blynyddol 2016-17.

Hyfforddi Swyddogion ac Aelodau
Fel y nodwyd uchod, cafodd hyfforddiant i swyddogion ar **ddwysedd anheddau** ei ddarparu gan y tîm Strategaeth a Pholisi i sicrhau bod y polisi'n cael ei ddehongli'n gywir.

Cydnabuwyd yn dilyn y cyfnod monitro cyntaf bod y dangosydd yn ymwneud â **thir yng nghefn gwlad a gollir oherwydd datblygiadau a oedd yn groes i'r CYD LP1** wedi mynd y tu hwnt i'r sbardun asesu. Mae hyn i'w briodoli i ddau gais cynllunio a gymeradwywyd a arweiniodd at golli 0.17 hectar. Er bod hyn yn ffigur cymharol fach, byddai'n fuddiol cynnig hyfforddiant ychwanegol i sicrhau bod y Swyddogion Rheoli Datblygu'n dehongli'r polisi'n briodol, gan fod y ddau gais dan sylw wedi'u cymeradwyo'n groes i gyngor tîm Strategaeth a Pholisi'r Awdurdod. Cafodd yr hyfforddiant hwn ei gynnal gan y tîm Strategaeth a Pholisi.

Ni chynigir unrhyw hyfforddiant ychwanegol ar gyfer Swyddogion ac Aelodau yn dilyn cyfnod monitro 2015-16, ar wahân i'r hyfforddiant posibl mewn perthynas â threftadaeth.

Atodiadau

1. **Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2015**

http://www.beacons-npa.gov.uk/planning/draft-strategy-and-policy/joint-housing-land-availability-study-jhlas/

2. **Dangosyddion ychwanegol yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd**

Pwnc	**Dangosydd**	**Casgliadau**	**Tuedd Gyffredinol**
Ffactorau'n ymwneud â'r hinsawdd	Cyflwr SoDdGA biolegol	Mae 65 SoDdGA biolegol o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, ac mae cyfanswm o 163 o nodweddion biolegol unigol (Cyfoeth Naturiol Cymru 2014). Yn 2006 roedd 82 o nodweddion biolegol o bwys yn y Parc Cenedlaethol. Roedd 24(29%) o'r rhain mewn cyflwr ffafriol, roedd 45 (55%) mewn cyflwr anffafriol, roedd un (1%) wedi'i ddinistrio'r rhannol a doedd dim gwybodaeth am gyflwr 12 (15%). O'r 45 o nodweddion biolegol a oedd mewn cyflwr anffafriol, roedd 11 (24%) yn gwella, roedd 11 (24%) yn dirywio a doedd dim gwybodaeth berthnasol am y 23 (50%) arall. Yn 2014 roedd 163 o nodweddion biolegol o bwys yn y Parc Cenedlaethol. Roedd 93 (57%) mewn cyflwr ffafriol, roedd 51 (31%) mewn cyflwr anffafriol a doedd dim gwybodaeth am gyflwr 19 (12%). Mae canran y nodweddion mewn cyflwr anffafriol wedi lleihau'n sylweddol ac mae canran y nodweddion mewn cyflwr ffafriol wedi cynyddu'n sylweddol, sy'n dangos tuedd gadarnhaol ers 2006. **Fodd bynnag**, dylid nodi bod mwy o nodweddion biolegol mewn cyflwr anffafriol yn 2014 nag yn 2006, yn rhannol oherwydd bod cyfanswm y nodweddion biolegol wedi dyblu ers 2006. Serch hynny, mae mesurau rheoli ar waith i	Cadarnhaol

		sicrhau bod y duedd hon yn parhau. (SOPR)	
	Ansawdd dŵr	Ar hyn o bryd, mae nifer sylweddol o afonydd nad oes ganddynt statws ecolegol da, yn ôl Cyfarwyddeb y Fframwaith Dŵr. Mae'r holl afonydd y mae angen eu hasesu i bennu eu statws cemegol mewn cyflwr da. Ar hyn o bryd, mae gan fwyafrif helaeth y cyrff dŵr tanddaearol yn y Parc statws cemegol da a chymharol ychydig sydd mewn cyflwr gwael. Mae gan yr holl gyrff dŵr tanddaearol yn y Parc statws ansoddol da. O'r 19 llyn yn y Parc, mae 11 mewn cyflwr da (58%) ac mae 8 (42%) mewn cyflwr gweddol. Nid oes angen asesu'r llynnoedd i bennu eu statws cemegol.	Niwtral
	Ansawdd aer	Mae'r data ar gyfer 2010 yn dangos rhwng 10 a 15 ug/m^3 o ddeunydd gronynnol (PM10). Mae hyn islaw terfynau Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 ar gyfer PM10 , sef llai na 40ug/m3. Nid oes ardaloedd rheoli ansawdd aer yn y Parc Cenedlaethol.	Niwtral
	Cyfaint dŵr	Mae Strategaethau Rheoli Ardal Dalgylch ar waith ar gyfer holl ardal y Parc Cenedlaethol Mae dŵr ar gael i'w dynnu yn y rhan fwyaf o'r rhan honno o Sir Gaerfyrddin sydd o fewn y Parc Cenedlaethol. Diffinnir y rhan fwyaf o ardal y Parc Cenedlaethol fel ardal lle tynnwyd gormod o ddŵr ohoni, a nodir Nad Oes Dŵr ar Gael mewn rhai ardaloedd neu fe'u diffinnir fel ardal lle Tynnwyd Gormod o Ddŵr. Nid yw'r data hwn wedi newid ers dechrau oes y cynllun.	Niwtral
	Geoamrywiaeth	Ar hyn o bryd, mae 76 o Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol yn y Parc, er mai dim ond 11 oedd ar ddechrau'r Cynllun. Dyma gyflwr y safleoedd:- 3% - Gwael 5% - Dirywio 9% - Sefydlog 67% - Da 16% - Ardderchog Yn 2006, roedd yr 11 safle mewn cyflwr da (ffynhonnell data SOPR).	Niwtral
	Rhywogaethau Cam Un	Roedd dros hanner (55%) y cynefinoedd glaswelltir yn laswelltir a oedd wedi'i wella. Roedd ychydig dros 1% o'r Parc Cenedlaethol yn amgylchedd adeiledig. Mae 57,347 hectar o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mewn perchnogaeth	Niwtral

		statudol. O'r 57, 347 hectar hyn, mae 39% wedi'i ddynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) , mae 33% yn eiddo i'r Parc Cenedlaethol, 15% yn eiddo i Gyfoeth Naturiol Cymru, 7% yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, 4% yn Ardal Gadwraeth Arbennig, 2% yn Warchodfa Natur Genedlaethol ac mae llai nag 1% yn eiddo i Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Brycheiniog. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi defnyddio delweddau lloeren yn ddiweddar i ddiweddaru a rhyddhau Cam 1 o'r gwaith o fapio cynefinoedd Cymru. Casglwyd y data dros gyfnod o flynyddoedd. Mae'n awr yn bosibl dadansoddi newidiadau mewn cynefinoedd dros gyfnod cyhyd ag y bod rhai cafeatau penodol yn cael eu hystyried wrth gymharu'r data. Mae data diweddaraf Cam 1 yn dangos mai glaswelltir yw 57% o'r prif gynefinoedd ar draws y Parc Cenedlaethol, sef gostyngiad o oddeutu 5%. Coetir yw 17% o'r prif gynefinoedd, sef cynnydd o oddeutu 3%. Rhostir yw 10% o'r prif gynefinoedd, sef gostyngiad o 1% (ffynhonnell: SOPR)	
	Henebion Rhestredig	Yn 2006 roedd 268 o henebion rhestredig yn y Parc. O'r rhain roedd 95.4% mewn cyflwr sefydlog neu ffafriol (257). Yn 2014, roedd 357 o henebion rhestredig yn y Parc - cynnydd o 89 ers 2006. O'r 357 o henebion rhestredig, roedd 95.5% mewn cyflwr sefydlog neu ffafriol. Yn 2014, roedd y ganran a oedd mewn cyflwr ansefydlog neu anffafriol ychydig yn is (0.4%). Er nad yw'r ffigur hwn yn fawr, mae'n werth nodi bod 89 o henebion wedi'u rhestru ers 2006 sy'n golygu bod mwy o henebion rhestredig yn awr mewn cyflwr sefydlog neu ffafriol (ffynhonnell: SOPR)	Cadarnhaol
	Adeiladau rhestredig mewn perygl	Yn 2006, roedd 1,711 o adeiladau rhestredig. O'r rhain roedd 11% mewn perygl. Roedd nifer yr adeiladau rhestredig wedi cynyddu i 1,950 erbyn 2014. O'r rhain roedd 6.6% mewn perygl. Mae nifer yr adeiladau rhestredig wedi codi felly tra bo'r nifer sydd mewn perygl wedi gostwng ers dechrau oes y cynllun. Yn 2016, roedd nifer yr adeiladau rhestredig wedi codi i 1951, gyda 5.4% ohonynt mewn perygl. (ffynhonnell: SOPR a CADW)	Cadarnhaol
	% o'r tirweddau hanesyddol sydd ag arfarniad	Mae gan 100% o Ardaloedd Tirwedd Hanesyddol arfarniad cyfredol o'u nodweddion.	Niwtral

	cyfredol o'u nodweddion		
	Diogelu archaeoleg	Yn ystod oes yr Adroddiad Monitro Blynyddol hwn, mae 526 o geisiadau cynllunio wedi cael eu harchwilio am eu heffaith bosibl ar adnoddau archaeolegol. O ganlyniad, roedd angen ymgymryd â gwaith i ddiogelu archaeoleg y Parc Cenedlaethol yn achos cyfanswm o 87 o geisiadau .	Niwtral
	Signal a chyflymder band eang	Mae cynllun Cyflymu Cymru yn cynnwys y rhan fwyaf o ardal y Parc Cenedlaethol. Erbyn diwedd y cynllun, disgwylir y bydd band eang cyflym ar gael i bob un o'r cymunedau.	Niwtral
	Teithio i'r gwaith	Mae'r ONS yn cyhoeddi data'n ymwneud â theithio i'r gwaith ar sail canlyniadau Cyfrifiad 2011. Mae'r Parc Cenedlaethol yn cynnwys y 5 ardal Teithio i'r Gwaith a ganlyn - Abertawe - Llanelli - Aberhonddu - Merthyr Tudful - Henffordd	Niwtral
	Hyd a chyflwr hawliau tramwy cyhoeddus	Yn 2006, roedd cyfanswm o 1,983Km o hawliau tramwy cyhoeddus yn ardal y Parc Cenedlaethol. Erbyn 2013, roedd hyn wedi cynyddu i 2,009Km. Roedd canran yr hawliau tramwy a oedd yn hawdd eu defnyddio ychydig yn is yn 2013 nag yn 2006, ond roedd 26km rhagor o hawliau tramwy. Mae nifer yr hawliau tramwy sy'n hawdd eu defnyddio wedi codi ers 2010/2011 a disgwylir i'r duedd hon barhau. At ei gilydd, mae cyflwr cyffredinol y dangosydd hwn yn dda.	Cadarnhaol
	Trafnidiaeth gyhoeddus yn y Parc	Mae 10 llwybr bws lleol yn gweithredu yn y Parc Cenedlaethol. 24 – Ponsticill-Merthyr Tudful 30- Brynmawr-Blaenafon-Pont-y-pŵl-Casnewydd 39-Aberhonddu-Y Gelli Gandryll-Kingstone–Henffordd 80- Aberhonddu–Llanymddyfri-Caerfyrddin X75-Merthyr Tudful-Hirwaun-Glyn-nedd-Castell-nedd-Abertawe T4- Casnewydd-Y Drenewydd-Llandrindod-Aberhonddu-Merthyr Tudful-Caerdydd X4- Henffordd–Y Fenni–Merthyr Tudful–Caerdydd	Niwtral

		X33- Y Fenni-Pont-y-Pŵl-Cwmbrân-Caerdydd X43-Aberhonddu-Crucywel-Y Fenni X63- Aberhonddu-Ystradgynlais-Castell-nedd-Abertawe 7 – Cwmaman-Penderyn	
	Llwybrau beicio yn y Parc	Mae dau lwybr beicio cenedlaethol pellter hir yn croesi'r Parc Cenedlaethol -Llwybr Beicio Cenedlaethol 8, llwybr Taith Taf - Llwybr Beicio Cenedlaethol 42, Lôn Las Cymru	Niwtral
	Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru	Mae'r rhan fwyaf o ardal y Parc Cenedlaethol yn ardal gynnyrch ehangach haen is 50% lleiaf difreintiedig. Mae lefelau amddifadedd ardaloedd Blaenau'r Cymoedd yn uwch yn gyffredinol.	Niwtral
	Ystadegau'n ymwneud â throsedd	Nid yw'r wybodaeth hon yn hawdd ei chael ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn benodol. Ymddengys, fodd bynnag, fod yr ystadegau'n ymwneud â throsedd yn is na'r cyfartaledd yn y Parc o'u cymharu â gweddill Cymru.	Niwtral
	Gwybodaeth am y Gymraeg	Yn Nhabl 1 isod, mae data a gasglwyd ar gyfer pob ward yng nghyfrifiad 2011 a 2011.	Negyddol
	Bodlonrwydd ymwelwyr	Ym mis Tachwedd 2013, cyhoeddodd Grŵp Marchnata a Chydgysylltu Bannau Brycheiniog ganlyniadau'r Arolwg Ymwelwyr Blynyddol Bannau Brycheiniog. Mae rhagor o wybodaeth am yr Arolwg i'w chael yma. http://www.beacons-npa.gov.uk/communities/tourism-new/tourism-facts-and-figures-1/ Yn gyffredinol, cafodd ymwelwyr brofiad da a dywedodd bron hanner (48%) iddynt gael profiad gwell na'r disgwyl a dywedodd 51% fod eu profiad cystal â'r disgwyl. Dim ond 1% ddywedodd nad oedd y profiad a gawsant cystal â'r disgwyl. Cafwyd canlyniadau tebyg ar gyfer Cymru yn gyffredinol yn arolwg ymwelwyr Croeso Cymru (49% yn well na'r disgwyl a 49% cystal â'r disgwyl). Prin yw'r gwahaniaeth rhwng profiadau'r rhai sy'n ymweld am y diwrnod ac sy'n aros dros nos. Ymwelwyr newydd roddodd y sgôr uchaf - dywedodd 56% ohonynt iddynt gael profiad gwell na'r disgwyl. Mae hyn yn galonogol gan fod posibilrwydd y byddant yn dychwelyd. Mae ymwelwyr o rai ardaloedd penodol yn rhoi sgôr ychydig uwch nag eraill. Dywedodd dros hanner yr ymwelwyr o Lundain a De-	Niwtral

<table>
<tr><td></td><td></td><td>ddwyrain Lloegr (53%) ac o dramor (52%) iddynt gael profiad gwell na'r disgwyl.</td><td></td></tr>
<tr><td></td><td>Safonau addysg</td><td>Dosbarthwyd ysgolion sy'n gwasanaethu'r Parc Cenedlaethol fel a ganlyn yn ôl y System Genedlaethol ar gyfer Categoreiddio Ysgolion:-
<table>
<tr><th>Categori</th><th>2014</th><th>2015</th></tr>
<tr><td>Coch</td><td>3%</td><td>2%</td></tr>
<tr><td>Ambr</td><td>18%</td><td>23%</td></tr>
<tr><td>Melyn</td><td>50%</td><td>41%</td></tr>
<tr><td>Gwyrdd</td><td>29%</td><td>34%</td></tr>
</table></td><td>Negyddol (Yn gyffredinol, mae'r % yn y categorïau Melyn a Gwyrdd wedi gostwng 4%)</td></tr>
<tr><td></td><td>Nifer y ffermydd a ffermwyr</td><td>Mae'r data ar gyfer 2014 yn dangos bod 1,445 o swyddi ym maes amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Fodd bynnag, mae'r sector hwn yn dirywio yn y Parc Cenedlaethol. Yn 1991, roedd swyddi ym maes amaethyddiaeth a physgota'n cyfrif am 10% o'r holl swyddi yn y Parc Cenedlaethol. Erbyn 2001, roedd hyn wedi gostwng i 7.3% ac i 5.9% erbyn 2011. (Ffynhonnell SOPR)</td><td>Negyddol</td></tr>
<tr><td></td><td>Gwariant Ymwelwyr</td><td>Yn 2009, gwariodd ymwelwyr £197 miliwn yn y Parc Cenedlaethol ac roedd hyn wedi codi i £216 miliwn erbyn 2013.
Roedd y swm cyfartalog a wariwyd gan bob ymwelydd dydd yn gymharol sefydlog rhwng 2009 a 2013, sef £46
(data STEAM)</td><td>Cadarnhaol</td></tr>
</table>

Tabl 1 Gwybodaeth am y Gymraeg yn y Parc Cenedlaethol

Mae'r tabl hwn yn dangos y ffigurau yng Nghyfrifiad 2001 a 2011 sy'n dangos nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Parc Cenedlaethol, yn ôl ward etholaethol. Gan nad yw pob ward yn gyfan gwbl o fewn ardal y Parc Cenedlaethol, rhoddir canran y boblogaeth ym mhob ward sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol hefyd. Yn y wardiau hynny sydd wedi'u lliwio'n goch, mae'r nifer sy'n siarad Cymraeg ac sydd â gwybodaeth am y Gymraeg wedi gostwng, ac yn y wardiau sydd wedi'u lliwio'n wyrdd, bu cynnydd yn y nifer sydd â gwybodaeth am y Gymraeg/sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg.

Sgiliau Cymraeg		2001		2011	
	Canran y boblogaeth o fewn y ffin	**Y ganran sydd â rhywfaint o Gymraeg**	**Y ganran sy'n gallu siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg**	**Y ganran sydd â rhywfaint o Gymraeg**	**Y ganran sy'n gallu siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg**

Enw'r Ward					
Abercraf	3%	64.0	30.5	58.89	26.28
Bwlch	100%	16.4	7.4	18.23	7.80
Crucywel a Chwm Grwyne	100%	16.6	8.2	14.35	6.39
Cwmtwrch	0%	70.9	39.7	65.12	30.70
Honddu Isaf/Llanddew (Felinfach)	3%	25.0	10.5	21.48	9.85
Gwernyfed + Llanigon	36%	15.4	6.9	14.87	6.81
Y Gelli Gandryll	100%	12.3	5.5	14.39	5.82
Llangadog	100%	16.6	7.2	17.92	5.91
Llangors	100%	23.0	10.7	19.63	8.52
Llangynidr	100%	22.9	10.5	18.24	8.59
Maescar/Llywel, Crai	100%	42.6	20.4	40.16	18.09
Aberhonddu – Dewi Sant	100%	22.4	9.4	20.65	9.15
Aberhonddu - Sant Ioan	100%	25.2	12.9		
Aberhonddu – Santes Fair	100%	21.0	9.8		
Talgarth	96%	19.7	7.0	20.07	8.47
Talybont, Glyntarell, Llanfrynach	93%	23.2	11.2	22.15	8.32
Tawe-Uchaf/Fellte	57%	49.4	21.4	42.97	16.24
Aberysgir, Trallong,	29%	29.6	12.3	27.55	12.33
Ystradgynlais wledig	1%	66.7	31.7	57.23	24.61
Garnant Cwmaman	3%	79.4	55.0	69.47	41.61
Glanaman	1%	77.6	52.3	70.47	41.80
Dyffryn Cennen (Llandeilo)	13%	70.0	42.9	66.54	36.82
Llanymddyfri, Llanfair	5%	60.2	35.7	54.07	29.38
Llandybie	Less than 1%	75.2	46.2	71.41	38.78
Llangadog,Llanddeusant,Myddfai	45%	69.0	51.6	65.16	43.81
Cwarter Bach	6%	83.3	61.7	76.62	51.25
Rhigos (Hirwaun)	49%	32.5	13.9	29.59	12.35
Y Faenor	12%	21.3	7.8	18.05	6.79
Brynmawr	1%	14.8	6.8	11.86	5.75
Pont-y-pŵl New Inn	0%	13.5	7.7	11.91	5.83
Gogledd y Fenni (Cantref)	3%	15.0	8.0	13.41	6.24
Crucornau Fawr	36%	12.0	7.3	14.29	7.45
Goetre Fawr	10%	14.3	8.0	15.71	8.23
Llanelli	100%	15.0	7.6	14.23	6.49
Llan-ffwyst Fawr	17%	15.2	7.5	15.85	8.51
Llanofer	3%	12.2	6.5	12.18	6.45
Llan-ffwyst Llanwenarth Uchaf	100%	14.3	7.1	13.61	6.36
Llandeilo Bertholau Maerdy	13%	14.2	7.4	16.27	7.61

3. **Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol: Adroddiad ar Gyflwr y Parc**

http://www.bannaubrycheiniog.org/yr-awdurdod/ffeithiau-a-ffigurau/adroddiad-cyflwr-y-parc/